# Y BIGWN

CYF. 29 RHIF 10 CHWEFROR 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

# DATHLU, CHWALU A CHOFIO



Dathlu, hanner can mlynedd sefydlu Cangen Merched y Wawr yn y dref. (tud



Byd o wast lle gynt bu dysg (tud



Morgan, Gwawr a Dyl Mei yn Siop Clwyd (tud

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Chwefror 16eg - Ar Werth Mawrth 3ydd, 2018**

# GOLYGYDDOL

**'Y ngh'lennig i 'y ngh'lennig i a ...**

Mi fydd y flwyddyn newydd 'ma'n fis oed o leia' cyn y gwelwch chi'r llith 'ma. Dydy'r stori fach yma 'rioed wedi gweld gola' dydd, hynny ydi, ar wahan i'r bora y bu'n rhaid i mi ddatgelu cynnwys y fasged i' nhad a mam. Sôn am hel c'lennig ydw i, arferiad sy' wedi cymryd y goes ers blynyddoedd (yn yr ardal yma beth bynnag) mwya' bechod. Roedd 'na drefn i'r bora, pob un ohonon ni â gobaith am bocedi llawn erbyn amsar cinio. Roedd bod yn y fan ar fan ar amser arbennig yn bwysig, achos 'roedd gynnon ni syniad go lew pwy fydda' adra a phwy fydda'n debygol o fod wedi trio'i heglu hi. Roedd 'nabod ein pobol yn talu.

Yn ffodus i mi, 'ron i wedi cael beic tair gêr gan Siôn Corn ac felly 'ron i'n gallu mynd yn gyflymach a phellach na 'mrodyr, a gweld mwy o bobol wrth gwrs. 'Do'n i ddim yn g'radur rhy boblogaidd y bora hwnnw. Mi 'nelis i hi am Ben 'Rallt, - doedd neb arall am 'i mentro hi mor bell er 'i bod hi'n stryd go hir, a dewis da o ddrysa'. 'Roedd hi'n chwartar i ddeg ac o beidio tindroi, fe allwn i'n hawdd fod wedi 'i 'nelu hi am Tan 'Rallt hefyd. Roedd y stryd posh honno'n bentra o fewn pentra, milltir sgwar y crach, cefnog.

Mi gnocis ar ddrws Rhif 1, Pen 'Rallt a dyna cyn belled ag yr es i! Agorodd y drws ac 'roedd Mrs Wmffras isio siarad. Ches i ddim cyfla i ddeud 'y mhwt hyd yn oed ac mewn chwinciad 'roedd 'na gacan sbynj ar blât posh ar fraich y soffa yn y parlwr bach. 'Roedd bysadd y cloc ar ras wyllt a hanner dydd ar ein gwartha' ni a rhyw synhwyro wnes i y bydda'n rhaid rhoi'r ffidil yn y to, pocedi gwag ne' beidio. Dw i'n siwr fod ceg Mrs. Wmffras druan wedi bod yn goblyn o boenus ar ôl yr holl falu awyr.

"Cyn i chi fynd," medda' hi, "mae gen i rwbath bach i chi" a diflannodd i'r cefn. "Hwdwch," medda hi gan estyn basgiad a chaead arni, i mi. "Blwyddyn Newydd Dda a diolch i chi." Ches i 'rioed, na chynt nac wedyn, g'lennig tebyg i hwnnw.

*Berwyn Roberts*

Ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r rhai llai ffodus yn ein plith sydd yn dioddef o ryw anhwylder neu'i gilydd. Ond cofiwch, mae i bob nos ei gwawr. Brysiwch wella.

Diolch i bawb ddaru gyfrannu i'r rhifyn hwn o'r Bigwn




## Dyddiadur

**6ed Chwefror** - Eisteddfod yr Urdd 2020 - Pwyllgor Apêl Tref Dinbych am 7.00 yn Swyddfa'r Urdd, Dinbych

**9ed Chwefror** - Capel y Fron – Arwerthiant Addewidion ym Melin Brwcws

**12fed Chwefror** - Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron am 7yh yn y festri. Sgwrs gan Dyfrig Hughes Roberts, Arwyddfardd Gorsedd y Beirdd: 'Gwên yn y gwaith.' Croeso cynnes i bawb.

**7fed Mawrth** - Cyfarfod blynyddol Y Bigwn yn Festri Capel Mawr am 7.30 y.h.

**16eg Chwefror** – Cymdeithas Caledfryn - Teithiau mewn lluniau – Aneurin Phillips

**23ain Mawrth** – Cymdeithas Caledfryn - Cinio Blynyddol – Geraint Lövgreen

**27ain Ebrill 27ain** – Gwefr heb Wifrau -Ioan Talfryn ar Syr T. H. Parry-Williams




## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9
@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Ffion Whitham (01824 704642)
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Cyfarchion



Pen-blwydd hapus i Hari Gruffydd Jones yn 4 oed ar 31 Ionawr gan Nain a Taid Dinbych (John Geraint ac Eiri) ac Anti Nia ac Yncl Sam, Taid a Nain Cilgwyn, Anti Ffion Yncl Gwil,Ifor a Huw.
Dyma Hari yn cystadlu fel cystadleuydd rhyngwladol yn rholio'r gasgen ar ddiwrnod San Steffan.



"Pen-blwydd hapus i Sophie a Matthew yn 10 ac 8 oed. Oddi wrth Mam, Dad, Mamgu, Dadcu, Anti Catrin, Wncwl Graeme, Steffan ac Alaw xxx

**Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron**
Nos Lun, Chwefror 12fed. am 7yh yn y festri
Sgwrs gan Dyfrig Hughes Roberts,
Arwyddfardd Gorsedd y Beirdd:
'Gwên yn y gwaith.'

# Dyweddïad



JONES - JONES
Pleser yw cyhoeddi dyweddïad
NIA HAF,
merch Ivor a Margaret Jones, Bae Colwyn, a
DYLAN LUKE,
mab Gwilym ac Alwenna, Dinbych.
Llongyfarchiadau oddi wrth y plant a'r teulu oll.




Pen-blwydd Hapus iawn i Efa Elisa Whitham yn 5 oed ar 26ain Ionawr. Cariad mawr gan Mam, Dad, Deian, a'r teulu oll. Xxxx

# Y Capeli

## Capel Brwcws

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Nadolig, gyda'r plant a'u mamau yn cymryd rhan, brynhawn Sul, Rhagfyr 17eg. Diolch i Lis Edwards am drefnu'r rhaglen ac i'r mamau am baratoi'r plant a Bryan Roberts am gyfeilio. Braf oedd cael croesawu ffrindiau atom, ac ar ddiwedd y gwasanaeth cyrhaeddodd Siôn Corn gyda llond ei sach o anrhegion i'r plant.

Ar fore Sul, Rhagfyr 24ain, daeth y dair eglwys ynghyd yn y Capel Mawr i wasanaeth Carol a Llith. Carolyn Thomas a Rhianwen Williams fu yn cynrychioli'r Brwcws. Noswyl Nadolig am 11.15, mewn Gwasanaeth Carolau wedi ei drefnu gan ein gweinidog y Parch. Andras Iago, hyfryd oedd gweld y capel yn rhwydd lawn gyda chymaint o bobl ifanc yn bresennol. Martha Llwyd Cordiner fu yn rhoi darlleniad ar ein rhan yn y Brwcws. Carolyn Thomas oedd yr organyddes. Diolch i Lis a Gwilym Edwards a Brian Thomas am addurno'r capel a pharatoi'r canhwyllau.

Bore'r Ŵyl, bu Oedfa Gymun y Fro yng Nghapel y Fron dan arweiniad y Parch. Andras Iago.

Y Sul olaf o 2017 cafwyd Oedfa Gymun dan ofal y Parch. Nesta Davies yn y Dyffryn.

Yn y cyfarfod Gweddi Ddechrau'r Flwyddyn, gynhaliwyd eleni ar y Sul cyntaf, Lis Edwards, Bleddyn Williams a Rhianwen Williams fu yn cymryd rhan.

Dydd Sul, Ionawr 14eg, Catrin Jones a Cai oedd yn gyfrifol am y rhannau dechreuol yn yr Ysgol Sul. Croesawyd Mr Peter Smith, Henllan, atom yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd wrth yr offeryn.

Nos Fercher, Ionawr 17eg, yng Nghymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws cawsom noson gyda Eiri Jones a Gaynor Prew yn rhoi "Cipolwg ar Dubai".

## Capel y Fron

Bore Sul, Rhagfyr 17eg, yr oedd y gwasanaeth Carol a Llith wedi ei drefnu gan Wendy Lloyd Jones ac fe wnaeth Sarah a James ledio'r garol "O Deuwch Ffyddloniaid", gyda Mrs Eleri Jones yn eu cynorthwyo. Yna, fe gawsom gyfraniadau gan Carys Jones, Gwyrfai Jones, Sian Lloyd Jones, Eirian Williams, Olwen Griffiths, Nia Angharad Jones, Erfyl Williams, Aelwyn Lloyd, Eiri Jones a Wendy Lloyd Jones, ac fe wnaeth Eleri gloi'r gwasanaeth. Yr organyddes oedd Mrs Iona Edwards.

Bore Sul, Rhagfyr 24ain, yr oedd cyfle i ni ymuno mewn Carol a Llith gyda aelodau'r Capel Mawr a Brwcws gyda Wendy a Dilys yn cymryd rhan. Yr oedd y gwasanaeth wedi ei drefnu gan Mr Stan Lyall ac yna yr oedd gwasanaeth Noswyl Nadolig am 11.15 yr hwyr yng Nghapel y Brwcws ac yr oedd Richard Snelson yn cymryd rhan. Yr oedd gwasanaeth Dathlu'r Ŵyl gyda chymun, bore Nadolig am 9.30, i'r fro, dan ofal ein Gweinidog. Dydd Sul olaf y flwyddyn, Rhagfyr 31ain, yr oedd oedfa'r Fro yn y Dyffryn dan ofal y Parch Nesta Davies. Bore Sul, Ionawr 7fed, fe fu i ni gynnal ein Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn gyda Mrs Jois Snelson, Mrs Gaynor Prew a Mr Stan Lyall o'r Capel Mawr yn cymryd rhan, a'r organyddes oedd Mrs Iona Edwards a Mrs Wendy Jones oedd yn llywyddu.

Llongyfarchiadau i Mrs Eurwen Pierce ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar Noswyl Nadolig a hefyd i Mr.a Mrs. Erfyl Williams ar ddod yn daid a nain i Mari Elinor, hefyd ar Noswyl Nadolig. Yr ydym yn anfon ein cofion at Eurwen wedi'r drychineb fawr yn yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur, ac y mae ar hyn o bryd wedi cael ei hail gartrefu yng Nghartref Rhos Wylfa, Y Rhyl.



Gwasanaeth Nadolig ac ymweliad Siôn Corn yn Brwcws





**"Ganwyd Iesu i'r Byd"** Bore Sul, Rhagfyr 24ain, cafwyd cyflwyniad 'Ganwyd Iesu i'r Byd' gan blant ac ieuenctid Capel Lôn Swan.

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

**Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH**
**Ffôn: 01745 812935**
**Ffacs : 01745 817303**
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

**Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW**
**Ffôn: 01745 827777**
**Ffacs : 01745 827750**
E: rwroberts.abergele@gmail.com

**www.rwrobertsandson.co.uk**

Golden Charter

## Aelwyd Y Capel Mawr

Cyfarfod o frethyn cartref oedd gennym ar Ragfyr 19, wedi ei drefnu gan Helena Williams. Roedd yn gyfarfod arbennig o dda, yn dathlu gwir ystyr y Nadolig. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Aelwyd, gyda amrywiaeth o ddarlleniadau, a Nerys Ann Roberts ac Ifor John Jones yn rhoi unawdau, a Doris Williams a Dorothy Rogers yn canu deuawd. Mwynhawyd y te Nadolig ar ôl, a'r cymdeithasu mor dderbyniol â'r wledd. Diolchwyd i bawb fu'n cyfrannu at y cyfarfod ac at y bwyd, gan Tom Williams.

Ym mis Ionawr, Jean Gwynn oedd ein gwraig wadd. Dechreuwyd y Cyfarfod gan Helena Williams yn darllen emyn Nantlais a gweddi addas i ddechrau blwyddyn. Helena hefyd roddodd groeso i'r wraig wadd.

Cafwyd prynhawn arbennig yn ei chwmni yn clywed hanes ei phlentyndod a'r ardal lle cafodd ei magu. Roedd ei thad yn hanu o Borth Amlwch a'i mam o Ben-bre, ond yn Sir y Fflint y treuliodd Jean ei phlentyndod. Morwr oedd ei thad yn gweithio ar y llong "Point of Ayr", yn cario glo o Bwll y Parlwr Du i Iwerddon ac Ynys Manaw. Cawsom hanes y pwll fu'n cynhyrchu am gant a chwech o flynyddoedd. Diddorol iawn oedd hanes y ceffylau oedd yn cael eu defnyddio yno hyd 1968. Roedd gweithfeydd eraill yn yr ardal, fel y gwaith haearn, y chwarel ac yn ddiweddarach yr olew a'r nwy o Fae Lerpwl.

Diolchwyd i Jean Gwynn am brynhawn difyr iawn gan Tom Williams. Hefyd i Gwilym Luke Jones am helpu gyda'r ochr dechnegol, ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Dathlwyd y Nadolig gyda oedfa deuluol ar brynhawn Sul, Rhagfyr 17eg, pryd y cymerwyd rhan gan Mrs Nerys Ann Roberts, Mr Ifor John Jones a phlant yr Ysgol Sul. Cyfeiliwyd gan Mrs Doris Williams.

Ar ôl tê parti swmpus, cafwyd ymweliad gan Siôn Corn, a oedd wedi dod ag anrhegion gydag ef ar gyfer y plant.

Braf oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn wedi dod ynghyd ar gyfer yr achlysur.

Noswyl y Nadolig daeth tri chapel Presbyteraidd y dref ynghyd yn Y Capel Mawr ar gyfer gwasanaeth Llith a Charol. Croesawyd y gynulleidfa niferus gan Mrs Nerys Ann Roberts, llywydd y mis, a chymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o'r Brwcws, Y Fron a'r Capel Mawr. Mrs Dorothy Rogers oedd y cyfeilydd.

Un oedfa yn unig a fu yn y capel yn ystod Ionawr, sef yr un ar fore Sul, Ionawr 14eg, pryd y cafwyd cwmni Mr Dafydd Timothy, Rhuddlan. Croesawyd ef gan Mr Gwilym Luke Jones. Mrs Catrin Warren oedd wrth yr offeryn.

Guthrie Jones a Jones Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

# Y Cymdeithasau

## Y GYMDEITHAS GYMRAEG

Yng nghyfarfod Rhagfyr, cyflwynodd Dilwyn Jones (ysgrifennydd ) y siaradwraig wadd Dr Eiddwen Jones, Abergele i roi sgwrs dan y teitl " Yr Etifeddiaeth Goll – Cwlwm Creulon" a Dilwyn ddiolchodd hefyd. Cafwyd cyfle i sgwrsio wedyn dros baned wedi ei pharatoi gan Mair Spencer ac Ann Mortimer.

Cydymdeimlwyd a Gwyn Jones, Segrwyd, oedd wedi colli ei briod ac anfonwyd cofion ato yn dilyn ei waeledd hefyd.

Atgoffwyd pawb ein bod am noddi coron Eisteddfod yr Urdd 2020 a gwahoddir cyfraniadau naill ai i Mr Tom Williams, trysorydd, neu i Dilwyn.

Yng nghyfarfod Ionawr, Dilwyn oedd eto yn cyflwyno a'r siaradwr gwadd oedd Dr Goronwy Wynne, Licswm a phennawd ei sgwrs oedd "Daniel Owen a Iaith Sir Fflint". Cafwyd sesiwn o holi ac ateb cyn i Dilwyn ddiolch ac i bawb fwynhau cymdeithasu dros baned a baratowyd gan Richard a Jois Snelson.

Erbyn i'r rhifyn yma o'r Bigwn weld golau dydd, bydd ein cyfarfod nesaf wedi ei gynnal, sef sgwrs gan Dr Eigra Lewis Roberts ar Chwefror 2il yn rhoi hanes a chefndir ei nofel newydd "Pry ar y Wal".

Wedyn, bydd ein cinio blynyddol ddechrau Mawrth yn y clwb golff hefo'r gwestai arbennig Ieuan ap Sion. Am fwy o fanylion, cysyllwch hefo Dilwyn - dilwyn@boyns.net



Goronwy Wynne a Dilwyn



Dr Eiddwen Jones, Abergele a Dilwyn

# MERCHED Y WAWR, DINBYCH a'r CYLCH

Roedd cyfarfod diweddaraf o'r gangen ar nos Fercher, Ionawr 10fed yn festri Capel y Fron yn ôl yr arfer. Croesawyd pawb gan Mair Roberts a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Llongyfarchwyd Carys ar ddod yn nain i Mari Elinor.

Roedd y noson yma yn noson i ddathlu'r 50 - cychwyn mudiad Merched y Wawr. Llywydd y noson oedd Lis Morris a gyflwynodd Sam Pritchard i ni - a doedd ddim angen dweud llawer amdano gan ei fod yn adnabyddus i'r rhan fwyaf o'r aelodau. Dechreuodd Sam trwy ganu rhai o'i hoff ganeuon Cymraeg (Hawl i Fyw, Lawr ar lan y môr, Anfonaf angel, Cysura fi, Elen o Elen tyrd yn ôl, Harbwr Diogel, Benedictus, Calon Lân, Dros Gymru'n Gwlad, a gorffen hefo campwaith ar y piano). Rhoddodd Sam stamp ei hun ar y caneuon, a heb yr un copi!! Dawn arbennig iawn. Clywsom hefyd gan Sam ambell i stori ddoniol a glywodd gan ei daid (Y Parch W H Pritchard) rhwng y caneuon.

Yna, aeth pedwar aelod wedyn ymlaen i roi eu hatgofion o sut y daethant yn aelodau o Ferched y Wawr

Yn gyntaf - Gwyneth Evans, (Bodfan)

Tonic cael mynd i MyW pan oeddent yn wragedd tŷ yn magu eu plant, neis cael mynd i gymdeithasu yn y Gymraeg, tu allan i'r tŷ. Cofio mynd i wahanol ddosbarthiadau e.e. Peintio platiau (a daeth ag un i'w ddangos). Roedd yn gwisgo dillad a wisgodd yn y Sioe Ffasiynau ym Mryn Morfydd. Dywedodd ein bod yn genhedlaeth freintiedig, ac yn falch fod yr hedyn wedi ei blannu yn ein hoes ni.

Yn ail - Olwen Roberts. Darllenodd Olwen y cofnodion o gyfarfod i godi cangen yn Ninbych a gynhaliwyd yng Nghaffi Gwyn. Cofio mynd i ddosbarthiadau crosio - ac wedi crosio llawer wedi hynny!! Llawer o atgofion, a balch o fod yn rhan o'r cychwyn!

Yna, daeth Anwen Williams ymlaen hefo'i hatgofion hi. Mae Anwen yn wreiddiol o'r Parc, ac yn falch fod MyW wedi dechrau yno. Cofio Dr Kate, Mrs Mathonwy Hughes ac Eirlys Williams fel aelodau brwd.

Yn 2002 cafodd ei phenodi yn Swyddog Datblygu, ac yn falch o gael y fraint honno ac wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd drwy'r swydd. Wrth edrych yn ôl, rhaid edrych ymlaen at y dyfodol a gobeithio y bydd y gangen yn mynd o nerth i nerth.

Yn olaf, daeth Angharad Rhys hefo'i hatgofion hi. Roedd Angharad yn cofio ei mam yn ymaelodi ar ôl symud i Ddinbych yn 1968, a'i hatgofion hi o ymaelodi wedyn, ond yn cael toriad am gyfnod, cyn ail-ymaelodi yn ddiweddar iawn.

Roedd pawb wedi mwynhau'r noson yn cyd-atgofio gyda'r pedwar aelod ac yn ymfalchïo bod yn aelodau o Fudiad Cymreig i Ferched Cymru. Roedd llawer o luniau yn mynd o amgylch o aelodau y gorffennol.

Diolchwyd i Mair Roberts am y gacen flasus i ddathlu'r 50.

Ceri Ellis roddodd y raffl, a Carys Williams enillodd y wobr.

Dyma gofnod o'r rhaglen ar gyfer gweddill y tymor yma, a chroeso i unrhyw un ymaelodi hefo ni.

Chwefror 7fed - Sioe Ffasiwn - gwahoddiad i'r dysgwyr ymuno hefo ni.

Mawrth 7fed - Dathlu Gŵyl Ddewi yn y festri.



Carys, Anwen, Mair, Mair Spencer, a Margaret yn torri'r gacen dathlu



ar y dde: Sam Pritchard

Ebrill 4ydd – Adweitheg yng ngofal Teleri Roberts.

Mai 2il - Swyn y blodau - Enys Davies.

Mehefin 9fed – Gwibdaith - i'w threfnu.



## Cymdeithas y Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

'Cipolwg ar Dubai ac Abu Dhabi' oedd testun sgwrs ein gwestai, Eiri a Gaynor. Ymwelodd y ddwy â Dubai yn ddiweddar gyda Margaret ac Ann.

Yn ogystal â rhannu â ni hanes Dubai, un o ddinasoedd mwyaf Yr Emiradau Unedig yn y Dwyrain Canol , arweiniodd Eiri ni o gwmpas y ddinas fodern hon lle mae Gwyn, Ceri a'r teulu wedi ymgartrefu ers 2015.

Cafodd Dubai ei sefydlu fel pentref pysgota ond erbyn yr 20fed. ganrif, roedd yn borthladd pwysig ac yn enwog am allforio perlau ac er i'r economi dyfu yn sgîl darganfyddiad olew yn 1966, dim ond 5% o gyllid y wlad sy'n dod o'r diwydiant olew heddiw. Daw'r cyllid, heddiw, o dwristiaeth, o'r diwydiant awyrennau, o dir ac adeiladau ac o'r gwasanaethau ariannol. Mewnfudwyr yw 90% o'r boblogaeth a does dim treth incwm!



O flaen Burj Al Arab

Mae yna gymaint o bethau mawr yn Dubai – Y Dubai Mall, y ganolfan siopa fwyaf yn y byd yn cynnwys acwariwm anhygoel gyda 33,000 o wahanol greaduriaid a beth am Faes Awyr Al Maktoum - hwn fydd y mwyaf yn y byd ar ôl iddo gael ei gwblhau, o ran maint a nifer y teithwyr. Anhygoel!

Mae yna gymaint o adeiladau tal yn Dubai hefyd gan gynnwys Y Burj Khaliha, un o adeiladau talaf y byd, sy'n cynnwys gwesty, siopau, apartments, swyddfeydd a phyllau nofio. Fe fu Eiri a John i fyny'r tŵr ar lawr 127 a'r olygfa yn werth ei gweld. Gwesty mwyaf moethus y byd ar siâp hwyl llong yw'r Burj Al Arab ac un o'r talaf yn y byd. Mae'n cael ei ddisgrifio fel yr unig westy 7 seren yn y byd ac os am de pnawn yno, rhaid talu £110!

Bu Eiri, John a'r teulu ar 'Desert Safari' heibio i stadiwm rasio camelod ac i fyny ac i lawr y twyni tywod yn y diffeithwch. Gweld yr haul yn machlud yn belen goch cyn reid ar gefn camel a dyna be oedd sbort!!

Yn ôl Eiri, mae Dubai yn le saff, heb helynt na thorcyfraith ond mae bwyta allan yn ddrud!

Aeth Gaynor â ni i Abu Dhabi, prifddinas y wlad sydd yn daith awr mewn tacsi o Dubai lle'r oedd Gaynor a'r merched yn aros. Yma yn Abu Dhabi mae mosg fwyaf y wlad, Mosg Sheikh Zayed (Sheikh Zayed Grand Mosque). Fe lansiwyd y prosiect i'w hadeiladu gan gyn arlywydd y wlad, Sheikh Zayed er mwyn uno pobloedd y byd. Fe'i hadeiladwyd rhwng 1996 a 2007 ac ynddi y claddwyd Sheik Zayed. Mae lle yn y mosg i 40,000 o addolwyr ac mae'n atynfa i lu o ymwelwyr. Yn ôl Gaynor, roedd hi'n braf ymweld â'r caffi a'r siop ar ôl awr a hanner o gerdded o gwmpas y mosg!



Ann, Eiri, Gaynor a Margaret



Mosg Sheikh Zayed

Dyma adeilad hardd a thrawiadol gyda 80 cromen batrymog aur, 7 siandelier, carpedi moethus ac mae'r allor, wrth gwrs, yn wynebu Meca. Goleuir y mosg yn y nos sy'n gwneud i'r adeilad enfawr a gwyn hwn edrych mor ysblennydd!

Cyfeiriodd Gaynor at hanes geni'r Iesu yn y Coran, llyfr sanctaidd y Mwslemiaid.

Cafwyd noson gartrefol ac addysgiadol yng nghwmni Eiri a Gaynor gyda Mike yng ngofal y taflunydd. Llywyddwyd gan Dilys a roddodd air o groeso i'r gwesteion. Roedd y rhan ddefosiynol yn nwylo Pamela a rhoddwyd gair o ddiolch gan Magi. Braf oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn yn y cyfarfod a drefnwyd ar y cyd gan Gymdeithas y Chwiorydd a'r Gymdeithas Ddiwylliadol.




TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**

**Coronation Buildings, Lôn Gefn, Dinbych, Ll16 3TE**

**deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**

# Holi a stilio yng nghwmni Gwyn Hafod Elwy



**1. Cyflwyniad byr**
Cefais fy ngeni yn y 'Rhiwiau' Pen y Cefn, Llansannan, fferm fechan deugain acer. Doedd dim dŵr yn y tŷ, a dŵr o ffynnon gerllaw oedd y cyflenwad. Goleuid y tŷ gan lamp baraffin neu gannwyll. Cofiaf yn iawn heth fawr 1947 pan anwyd fy chwaer Eira.

**2. Be ydy dy atgo' cyntaf?**
Pan oeddwn yn bump oed cofio mynd yn llaw fy chwaer hŷn Morfudd i'r ysgol yn Nhan y Fron. Cofiaf fynd i lawr i Lansannan i angladd fy chwaer fach, Mona yn 1945. Bu farw yn bedair mis ar ddeg oed a chofiaf weld gwrych o rodendendron pinc hardd yn blodeuo yn y gwrych ar y dde cyn cyrraedd y Llan. Maent yn dal i flodeuo hyd heddiw ym mis Mehefin.

**3. Be sy'n rhoi'r boddhad mwya' i ti?**
Bod yn aelod o gôr meibion a chael 'Amen' da ar ddiwedd cân.
Gorffen cerfiad llwyddiannus ar garreg fedd neu blac.

**4. Be' sy'n dân ar dy groen di?**
Gyrwyr ceir sy'n cadw yn rhy agos tu ôl i mi a'r bobl rheini sy' byth a beunydd ar eu ffonau symudol tra'n gyrru!

**5. Pwy ydy'r person mwya' difyr/diddorol rwyt ti wedi bod yn ei gwmni?**
Abel Jackson. Peintiwr wrth ei alwedigaeth ac yn Gymro da. Roedd yn gerddor, tenor swynol yn canu unawdau o'r Meseia ar ei gof. Byddai yn troi tonnau hen nodiant i'r sol ffa i mi. Treuliodd amser fel milwr yn yr ail ryfel byd. Roedd yn arweinydd y gân yng Nghapel Salem ac yn mynnu bod digon o fynd yn y canu! Dyn diddorol ei sgwrs a mynych ei ddoeth gynghorion.

**6. Pa dri lle sy'n bwysig i ti?**
Fy nghartref, y capel a mynydd Hiraethog lle'm ganwyd a phle chwalwyd llwch fy chwaer Annie y llynedd.

**7. Be' ydy'r un peth sy'n codi ofn arnat ti?**
Fel gŵr di-briod yr hyn dw i'n ofni fwyaf ydy gwragedd gweddwon!!!!!!

**8. 'Rwyt ti'n berson cerddorol. Pa fath o gerddoriaeth sy'n apelio fwya'?**
Pob math o gerddoriaeth clasurol, canu corawl, cerdd dant ac ambell i iodl yn awr ac yn y man!

**9. Be'sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Rhywun sy'n cosi fy nhraed!!!!!

**10. Be' ydy'r peth gorau sy' wedi digwydd i ti erioed?**
Cael fy ngeni yn Gymro a'm magu ar aelwyd grefyddol. Cael iechyd, teulu cefnogol a ffrindiau ardderchog.

**11. Pa dri chyngor fyddet ti'n ei roi i Carwyn Jones i geisio gwella pethau?**
Er nad wyf yn edmygu ei blaid, rhaid cyfaddef bod pethau fel prescriptiwn am ddim, teithio i'r henoed, rhoi organau, lleihau gwastraff trwy godi tal am fagiau plastig wedi bod yn llwyddiant a llesol i gymdeithas ac yn flaengar.
1.Rhoi mwy o sylw a statws i'r Iaith Gymraeg a sicrhau ei fod **o** yn ei defnyddio bob cyfle gaiff o yn y senedd.
2. Cyfathrebu mwy gyda phobol yn y gymuned.
3.Sicrhau pan ddaw Brexit (os y bydd o wrth y llyw) bod Cymru a'i phobl yn cael pob chwarae teg.

**12. Rhanna gyfrinach fach â ni.**
Ysbryd yn y Plas Pren.
Bu cwpwl o Lundain, ffrindiau i'r Arglwydd Devonport yn aros yn y plas tua 1919. Cafodd y wraig ffit yn ystod y nos a brathu clust ei gŵr!! Deffrodd hwnnw ac yn ei fraw fe dagodd ei wraig a bu farw. Cadwyd y peth yn hollol dawel ac fe gladdwyd gweddillion y wraig gefn nos rhywle ar y mynydd. (Fe'i clywsoch yma!!!)

**13. Pa joban sy' wedi rhoi y boddhad mwya' i ti?**
Gwneud plac o lechen, i ddathlu agoriad 'Canolfan Dawn' ym Mae Colwyn 13eg o Ragfyr, 2002 i Uned Cyffuriau ac Alcohol. Dadorchuddiwyd y plac gan Arweinydd y cynulliad ar y pryd, Rhodri Morgan.

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, fydd yn dychwelyd i'r sgrîn yn y gwanwyn am gyfres arall.

Unwaith eto, bydd ein cyflwynwyr - y garddwyr brwd Iwan a Sioned Edwards a Meinir Gwilym - yn ymadael â'u gerddi eu hunain yn achlysurol i gynnig help llaw i arddwyr eraill ar hyd a lled Cymru. Nid trawsnewid gerddi yw'r bwriad, ond yn hytrach ddod a bywyd newydd iddi trwy ganolbwyntio ar ran ohoni a welai fudd diwrnod caled o dorchi llewys.

Felly, pa bynnag agwedd o'r ardd sydd angen sylw, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad â ni. Yn ddelfrydol, dylid anfon cyfres o luniau a disgrifiad byr o'r joban dan sylw, neu o ddyheadau'r perchennog (fydd wrth gwrs yn cymeryd rhan yn yr eitem!).

Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685 300 (a gofyn am Euros neu Meinir) neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes,
Tîm Garddio a mwy

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd

* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn,
Dinbych
01745 812132

## Gwyliau a Banciau

Roedd yna adeg pan oedd un banc yn falch o dd'eud ei fod yn gwrando ar ei gwsmeriaid tra bo un arall yn gosod rheolwr banc yn eich cwpwrdd dillad chi er mwyn gofalu am eich lles chi.
Ond y dyddiau hynny a aeth heibio a dydyn nhw'n malio'r un ffeuen am unrhyw un ohonom ni'r bobl bach bellach. Na, mae yna bysgod llawer mwy yn y môr, a modd gwneud biliynau mewn hanner eiliad wrth bwyso botwm.
Beth ydy'r ots am wasanaeth i'r gymuned? Beth ydy ots am deyrngarwch cwsmeriaid? Beth ydy ots am eich staff chi eich hun?
Ydw, mi rydwi'n gwsmer ym Manc Barclays, ac wedi bod yn gwsmer iddyn nhw ers dros hanner can mlynedd.
Ydw, mi rydwi'n henffasiwn ac yn hoffi delio efo'r staff dros y cownter. Mae rhywun yn cael sgwrs efo nhw, ac y mae rhai o drigolion y dref hon yn eu trin fel cyfeillion ac yn eu galw nhw yn ôl eu henwau cyntaf.
Yn wir, pan gaeodd cangen Llanelwy rai blynyddoedd yn ôl bellach, roedd trigolion y ddinas honno yn dod â blodau i'r staff wrth ddiolch a dymuno'n dda iddyn nhw.
Dyna faint a olyga banc i gwsmeriaid a busnesau unrhyw dref.
Dydwi - a llawer fel fi – ddim eisiau delio â pheiriant, boed hwnnw yn dwll yn y wal neu ar-lein.
Ond y mae cau cangen Barclays yn llawer mwy o gur pen i fusnesau bach nag i unigolyn fel fi. B'le maen nhw'n mynd i gael newid mân a thalu arian mân i mewn i'w cyfrif?
A Mistar Jones bach o b'le daw'r fflôt ar gyfer y bore coffi neu'r barbeciw ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2020?
Fe fydd yn rhaid i chi fynd yn unswydd i'r gangen yn Y Rhyl i'w gasglu....os bydd yna gangen yn y dref honno erbyn hynny!
Ac yn groes i'r hyn awgrymodd rhyw ŵr ifanc gwybodus ar Taro'r Post, y mae hyn yn taro pobl o bob oedran.
Y diwrnod y cyhoeddwyd bod y banc yn cau, roedd yna berson ifanc hunan-gyflogedig yn d'eud wrtha' i y fath drafferth a fyddai hyn yn achosi iddi hi gan fod llawer o'i chwsmeriaid yn talu iddi gydag arian parod.
Ac eto roedd y sgrifen ar y mur ers peth amser, ac arnom ni roedd y bai. Os nad ydych chi'n defnyddio unrhyw wasanaeth mewn unrhyw faes bellach, ei golli a wnewch.
Ugain mlynedd yn ôl roedd yna ddau ddwsin yn gweithio yng nghangen Dinbych o fanc Barclays.
Bellach dim ond dau aelod o staff sydd yno yn barhaol.
Diddorol oedd codi'r daflen uniaith chwerthinllyd a oedd yn amlinellu gogoniant yr ad-drefnu. Arni roedd rhyw lun o fap o Ogledd Cymru er mwyn ceisio dangos inni'r cwsmeriaid mor rhwydd fyddai'r trefniadau ar ein cyfer.
Yn anffodus, yr unig beth a oedd yn amlwg ar y map oedd y môr. Roedd angen telisgôp Jodrell Bank i weld y gweddill ohono. Byddai unrhyw blentyn ysgol yn gallu g'neud gwell job ohoni.
Yr hyn sydd yn flaenllaw yn y meddwl ydy' beth nesaf fydd yn diflannu o stryd fawr y dref hon?
……………………………………

Gwyliau! Ar ôl y Nadolig – gyda hwb o gyfeiriad y cyfryngau – fe dry'r sgwrs yn ein tŷ ni at y testun o wyliau.
Y wraig ydy'r un blaenllaw acw o ran syniadau yn y maes hwn, a minnau yn cytuno am fy mod i'n un cwbl ddi-ddychymyg.
Ai felly y mae hi acw?
Ond y mae yna un peth rydwi'n bendant arno – wna i ddim hedfan dros fy nghrogi. Nefar in Iwrop. Byth bythoedd. Amen.
Fe wna' i fynd ar gwch, mewn trên ac ar fws, ond byth mewn awyren.
Fe wnes i fynd ar awyren unwaith ac roeddwn yn bryderus am y daith adre' drwy gydol yr adeg roeddwn i'n Athen.
Rydwi'n deall bod yna sawl un arall o'r dref hon yn debyg imi - dynion dros oedran ymddeol yn bennaf. Ydach chi'n un ohonom ni?
Damwain drychinebus tîm pêl-droed Manchester United ym Munchen drigain mlynedd yn ôl a effeithiodd arna' i.
Wrth i chi dderbyn y rhifyn hwn o'r Bigwn, daw i'r cof wrando ar fwletin newyddion ar y radio y noson honno ar Chwefror 6ed, 1958, yn methu â dirnad bod y fath beth yn bosibl.

*Stan Lyall*





VISAGE
Tŷ Harddwch
*Nifer o wahanol driniaethau harddwch mewn amgylchedd moethus*
*Gwersi coluro, trin wyneb, dwylo a'r traed, wacsio, massage, estyniadau i'r ewinedd*
**Minffordd, Ffordd y Rhyl, Dinbych 01745 812215**
Perchennog: Julie Howatson-Broster

## Atebion Ionawr 2018

**Ar Draws :** 1. Banana 5. Crafangau 9. Meistres 10. Braint 11. Confensiynol 13. Delw 14. Diod poeth 17. Anaddfwyn 18. Ogof 20. Hunandosturi 23. Mwyara 24. Rownderi 25. Ariannin 26. Nelson

**I lawr :** 2. Ateb 3. Ansicrwydd 4. Amrant 5. Castell Dinas Bran 6. Asbestos 7. Abaty 8. Annioddefol 12. Mewnfudwyr 15. Profiadol 16. Nwydlawn 19. Sulwyn 21. Adara 22. Arno

## CROESAIR CHWEFROR 2018



## Ar Draws

7. (ac 8ad) Nofel gan Caradog Pritchard (2,3,3,5)
8. g 7ad
10. Defnyddir i blycio tannau
11. Hudolus
12. O wlad neu genedl arall
13. Person trugarog
15. Tystysgrif
17. Beic syrcas?
20. Ciciwr coesau o Sir Benfro
22. Parchu
24. Lliw glas tywyll
26. Bod yn ymwybodol o
27. Gorffwys gyda'r hwyr
28. ..... sebon, ee Pobl y Cwm

## I Lawr

1. Llosgi heb fflam
2. Gêm â pheli amryliw
3. Seryddiaeth
4. Gorthrymu
5. Bwyd o laeth
6. Tywynnol
9. Cyfarchiad yn Hawaii
14. Dinas yng Ngogledd Lloegr
16. Cyfansoddwr penillion digri
18. Diddymiad priodas
19. Ar hâst
21. Cerddoriaeth sy'n ailadrodd
23. Ysblander
25. Mae codi a tlodi yn gwneud hyn!

# Ysgol Glan Clwyd.

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn bydd disgyblion blynyddoedd 9 ac 11 yn meddwl yn ofalus am eu llwybr astudio ar gyfer y dyfodol. Bydd gennym gyfres o ddigwyddiadau a chyflwyniadau dros y tymor yma er mwyn cefnogi ein disgyblion yn y dewis pwysig hwn. Ond o edrych yn ôl mae'r disgyblion wedi bod yn brysur mewn nifer o wahanol feysydd.

**Cafodd disgyblion blwyddyn 12 Daearyddiaeth** tri dydd llwyddiannus iawn ar waith maes yng Nglan Llyn ddiwedd mis Tachwedd. Llwyddwyd i gasglu data ar dwyni tywod Harlech a thraeth Y Friog mewn gwynt a glaw yn ogystal â goroesi prysurdeb Wrecsam. Roedd y disgyblion yn llysgenhadon gwych i'r ysgol yn dangos parch i'r amgylchedd ac i bobl wrth holi cwestiynau er mwyn cwblhau eu holiaduron. Pleser gweld daearyddwyr y dyfodol wrth eu gwaith!'

**Adran ITM** Ganol Rhagfyr, cafodd yr adran daith lwyddiannus iawn i Rouen a Pharis. Cawsom fwynhau holl brif atyniadau Rouen fel y Gros Horloge a'r Musée des Beaux-Arts. Roedd pawb wedi mwynhau'r daith undydd i Baris hefyd, ble cawsom daith mewn cwch ar hyd yr afon Seine, ymweld â'r ardal Lladin a mynd i Montmartre a Sacré Coeur. Hoffai Madame Thomas ddiolch i'r staff am eu cymorth ar y daith, ond hoffai ddiolch yn enwedig i'r disgyblion am eu hymddygiad gwych a'u hagwedd arbennig - doedd y glaw ddim am ddifetha ein hwyl!

**Llongyfarchiadau** i dîm hoci merched dan 18 yr ysgol am ddod yn Bencampwyr Hoci Gogledd Ddwyrain Cymru. Bydd y merched yn teithio i lawr i Abertawe i'r gystadleuaeth genedlaethol yn y flwyddyn newydd. Pob lwc i chi!

**Llongyfarchiadau** i Llinos Jones o flwyddyn 11 a Ceri Vaughan a Beth Denson o flwyddyn 12 am gael eu dewis i dîm hoci Gogledd Cymru. Pob lwc i chi yn y gemau ferched.

**Llongyfarchiadau** i dîm pêl-rwyd dan16 Ysgol Glan Clwyd a oedd yn fuddugol yn nhwrnament Sir Ddinbych. Pob lwc i'r tîm yn y gystadleuaeth Ann Smart yn Wrecsam.

**Llongyfarchiadau** i dîm hoci dan 18 Ysgol Glan Clwyd a oedd yn fuddugol yn y gêm yn erbyn Ysgol Brynhyfryd ac yn bencampwyr Sir Ddinbych. Pob lwc i'r merched yn y rownd nesaf yn erbyn ysgol Maes Garmon.



*Gweler yn y llun ddisgyblion blwyddyn 8 yn casglu nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Dyffryn Clwyd. Roedd blwyddyn 7 wedi bod yn brysur yn casglu hefyd, felly rhyngddynt roedd pentwr anferth o fwyd ar ei ffordd i'r banc bwyd dros gyfnod y Nadolig.*

Mae ein llongyfarchiadau yn mynd hefyd i 2 o'r athrawon sydd wedi cael babi yn ddiweddar. Mae Ms Gwenno Williams wedi cael merch o'r enw Mari Elinor ac mae Ms Teleri Evans hefyd wedi cael merch o'r enw Anni Dafydd.

Fe drefnodd myfyrwyr 6ed dosbarth ddisgo i ddisgyblion bl 7 ac 8 ar brynhawn Gwener olaf y tymor i gasglu arian tuag at uned plant yn Ysbyty Glan Clwyd. Fe gasglwyd bron i £200.

Ond pinacl diwedd pob tymor cyntaf yw'r Noson Garolau sy'n cael ei chynnal yn yr Eglwys Gadeiriol. Roedd naws Nadoligaidd hyfryd i'r noson a phawb wedi mwynhau. Roedd nifer o unigolion yn cymryd rhan, a hefyd partïon a chorau - gan gynnwys côr staff. Diolch yn fawr i staff yr ysgol sydd yn rhoi eu hamser i ddysgu'r disgyblion ac i'r disgyblion sy'n ymroi i lwyddiant y noson.

**Er gwybodaeth,** bydd diwrnod HMS yn cael ei gynnal yn Ysgol Glan Clwyd ar Chwefror 9fed, felly diwrnod ychwanegol o wyliau i'r disgyblion dros yr hanner tymor.

**Llywodraethwr Ysgol** - Os oes diddordeb gennych mewn ymuno â'r Bwrdd, cysylltwch gyda Chlerc y Llywodraethwyr, Mrs Rhian Davies yn yr ysgol am fwy o wybodaeth. Mae'n gyfle da i ddod yn



*Bu merched y chweched dosbarth yn yr Uned Gancr yn Ysbyty Glan Clwyd ac mewn cartrefi henoed yn Llanelwy a Rhyl cyn y Nadolig yn canu carolau*



## Be'? Be' ddeudist di? Deud eto!
## Byddardod

Does dim llawer o deimladau brafiach na dychwelyd adref ar ôl miri boreol danfon y genod i'r ysgol i dŷ tawel, digynnwrf, ble chwarter awr yn gynharach roedd y trydydd rhyfel byd yn ffrwydro o 'nghwmpas i! Dim siâp symud ar y genod, a minnau'n hyrddio bygythiadau dros y lle: 'dim i-pad am weddill yr wythnos', 'dim ffrindiau drosodd i chwarae', 'dim mynd i Whitehall am ginio dydd Sul' a llawer gwaeth, wrth geisio'u cael yn barod i fynd! Ond ar ôl cyfnod byr iawn, mae'r distawrwydd yn y tŷ gwag yn pwyso'n drwm, a dydi o ddim yn deimlad pleserus.

Felly meddyliwch am y bobl sy'n byw eu bywydau mewn distawrwydd, neu sy'n cael trafferth adnabod a gwahaniaethu rhwng synau. Mae mwy na biliwn o bobl ledled y byd yn dioddef o ryw fath o fyddardod, a thua 124 miliwn yn cael trafferth difrifol gyda'r cyflwr. Dydi hon ddim yn broblem fechan felly.

Mae byddardod yn cael ei ddiffinio fel colli clyw yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ac mi all effeithio ar un glust neu'r ddwy. Mi all rwystro datblygiad lleferydd mewn plant, achosi problemau yn y gweithle i oedolion ac arwain at unigrwydd i'r henoed, ac mi all daro rhywun dros dro neu fod yn gyflwr parhaol.

Y prif achosion ydy henaint, rhesymau genetig, bod yng nghanol twrw am gyfnodau hir (mi fydd y rhan fwyaf o'n sêr roc a rôl dan fygythiad enfawr), haint yn y glust neu ergyd iddi, cymhlethdodau wrth eni neu ambell feddyginiaeth. Mae'r Awdurdod Iechyd ym Mhrydain yn argymell bod pob babi newydd anedig yn cael profion clyw er mwyn darganfod unrhyw nam cyn gynted ag y bo modd. Mae gwahanol raddau o fyddardod hefyd: ysgafn, cymedrol, difrifol a dwys.

Sôn am fiwsig uchel, dw i'n cofio ffeindio fy hun yng nghlwb 'Sugar Cane' ar ynys Grenada yn y Caribî efo Bone a John Llew yn hwyr un noson, tua phum mlynedd ar hugain yn ôl. Mi roedd y lle'n llawn bwrlwm a'r miwsig mor uchel nes bod y cadeiriau a'r byrddau yn adlamu, ond wyddoch chi be? Fe lwyddodd un o'r cwmni i bendwmpian er gwaethaf y twrw! Atebion ar gerdyn post plîs...?

Un ffaith nad o'n i'n ymwybodol ohoni nes i mi gychwyn ymchwilio i'r pwnc yma yw bod posib osgoi hanner yr achosion o fyddardod - a hynny drwy wrth-heintio, darparu gofal cywir yn ystod mamolaeth, osgoi sŵn uchel a chymryd meddyginiaeth addas. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell i bobl ifanc gyfyngu'r amser y maen nhw'n ei dreulio'n gwrando ar fiwsig gyda chlustffonau i awr y dydd, ond anodd iawn fyddai gorfodi'r rheol honno yn y tŷ yma! Fel sawl cyflwr arall, mae diagnosis cynnar o fudd mawr.

I lawer mae cymhorthion clyw yn gwneud coblyn o wahaniaeth ac mae datblygiad y teclynnau hyn dros yr ugain mlynedd diwethaf yn syfrdanol. Dim mwy o'r peiriant trwsgl yna oedd yn chwibanu pan oedd y batris yn dod i ddiwedd eu hoes! Erbyn heddiw, mae yna gymhorthion clyw ar gael sydd mor fychan fel nad oes posib gwybod fod rhywun yn eu defnyddio ond mae'r rhain yn costio rhwng £400 a £2,800 am y goreuon. Yn ogystal, mae'n bosib gwreiddio peiriant o fewn y glust (yn y cochlea).

Yn aml iawn mi fydd pobl sy'n cael trafferth clywed wedi dysgu darllen gwefusau neu wedi dysgu iaith arwyddo. Mae is-deitlau ar deledu hefyd yn gallu gwneud bywyd yn llawer haws.

Mae'r wraig newydd ddod i'r drws i ofyn be ydi'r pwnc y mis yma: paranoia ta be?? Pan atebais i mai byddardod oedd o, mi gefais fy nghyhuddo o ddioddef o "fyddardod dewisol" fy hun, "fel pob dyn arall". Mae'n syndod 'mod i'n dal yma wir!

*Diolch unwaith eto i Emyr Wynne Evans am ei ganiatâd i gynnwys ei erthygl yn 'Y Bigwn.*

## Ffeithiau bach difyr!

1. Allwch chi ddim plygu 'run darn o bapur yn ei hanner fwy na saith gwaith.

2. Ar unrhyw un adeg mae tua 7% o boblogaeth y byd yn feddw.

3. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg 'roedd tafarndai ardal Carchar Newgate yn cynnig 'Brecwast Crogi' gyda chyfle i bobl weld y dienyddio.

4. Yn 2012, daliodd Almaenwr, o'r enw Tom Sietas, ei anadl am dros ddau funud ar hugain, mewn tanc o ddŵr.

5. Byddai'n cymryd 4,575 o flynyddoedd i falwen straffaglio rownd y byd.

6. Bod blew trwyn person cyffredin yn tyfu tua dwy fedr yn ystod eu bywyd.

JWilliams
BLAS DA
EICH CIGYDD LLEOL
124 Stryd y Dyffryn
Dinbych Ll16 3BS
01745 812585

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333
Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900


Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB McHale Massey Ferguson Fendt Pottinger

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar



Mae gan Amgueddfa **Gwefr heb Wifrau** un derbynnydd teledu, y Bush TV12B sydd â sgrin naw modfedd, 18 falf a thiwb pelydrau catod. Dyma'r teledu a welwch fel arfer ar raglenni teledu sy'n dangos bywyd yn y 1950au cynnar. Roedd ganddo nifer fawr o reolyddion er mwyn rheoli ffocws, disgleirdeb, cyferbyniad ac ati, ac roedd rhaid newid y rhain wrth i'r noson fynd yn ei blaen ac wrth i'r cydrannau boethi.

Lansiwyd y derbynnydd teledu yma ym mis Medi 1949 ar yr un adeg â chychwyn Teledu BBC o Sutton Coldfield yng Nghanolbarth Lloegr, y tro cyntaf i deledu gael ei ymestyn oddi allan i Lundain. Dyluniwyd ef i dderbyn signalau teledu o Sutton Coldfield ar sianel 4 VHF yn unig, a dim ond yn yr ardal honno y gweithiai. Erbyn 1950, roedd y BBC yn dechrau sefydlu rhwydwaith o orsafoedd teledu ar draws y wlad, a chynhyrchodd Bush y TV22 a oedd yn medru derbyn teledu BBC o unrhyw le - ar sianel 5 VHF yng Nghaerdydd er enghraifft.

Yn 1955, cychwynnodd darlledu annibynnol ar sianeli newydd, 6 i 13, a golygai hyn na allai'r hen set deledu BBC yn unig, dderbyn y darllediadau newydd. Felly cynhyrchwyd trawsnewidydd i'w blygio i mewn i'r teledu, fel ei fod yn medru derbyn ITV. Dyma lun un ar gyfer set deledu Murphy.



Croeso cynnes i bawb i'r darlithiau nesaf yn ein cyfres:

Chwefror 16eg, "Darlledu yn yr 80au ar Radio Havana Cuba", gan Lila Haines.

Mawrth 16eg, "Darlledu yng Nghymru", gan Ifor ap Glyn. Darlith flynyddol David Edward Hughes fydd hon.

Ebrill 20fed, "Trasiedïau Morwrol yr 'Ocean Monarch' a'r 'Lelia'", gan Tony Griffiths a Keith Mountain.

Ebrill 27ain, darlith Gymraeg gan Ioan Talfryn ar Syr T. H. Parry-Williams.

Mai 18fed, "Mwyngloddio yng Ngogledd-ddwyrain Cymru", gan Alan Jones.

Mae'r darlithiau yn cychwyn am 7.00 y.h. ac mae lluniaeth ysgafn i ddilyn.




Arwydd newydd yr Amgueddfa

# Y Cerdyn Post




Cofio am anwyliaid ar ddechrau blwyddyn newydd.

Yn ystod y gwyliau galwodd hen ffrindiau i'n gweld, ffrindiau sydd erbyn hyn yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser dramor. Cyn dod yma, 'roeddynt wedi galw yn Nyfnaint i weld ffrindiau a gan fod Graham yn gasglwr brwd o hen gardiau post, 'roedd rhaid cael prynu un. Glaniodd ei lygaid ar un o Stryd y Dyffryn, Dinbych a gan ein bod yn byw yn y dref, prynodd y cerdyn post gan ei ddangos i ni gyda balchder.

Gwirionais i yn fwy pan welais yr enw Mrs. Mathonwy Hughes mewn beiro goch ar gefn y cerdyn. Doedd yna ddim marc post arno. Beth ar y ddaear oedd y cerdyn yma yn ei wneud yn Exeter o bobman? Biti garw na fuasai yn gallu dweud ei hanes wrthym.

Llifodd yr atgofion am yr anwyliaid, sef Mair a Mathonwy Hughes i'm meddwl, a phob bore, pan fyddwn yn mynd i'r ystafell ddysgu yn y Ganolfan Iaith, caem groeso a gwên twymgalon gan y llun o Mathonwy oedd ar y wal y tu allan i'r ystafell. Mae'n debyg fod gan lawer iawn o ddarllenwyr Y Bigwn atgofion melys o'r ddau addfwyn yma oedd mor ffyddlon i'w hiaith a'u gwlad.

Balchder hefyd i mi oedd bod un o fy nysgwyr Cymraeg wedi prynu eu tŷ ar ôl eu marwolaeth.




*Mair Spencer*

siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864 neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

## Pwyllgor Gwaith Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020

Wythnos diwethaf yn nhre Dinbych, croesawyd dros 40 o bobl i gyfarfod cyntaf Pwyllgor Gwaith Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020. Bwriad y Pwyllgor Gwaith yw llywio holl drefniadau'r ŵyl a fydd yn cael ei chynnal ar fferm Kilford ar gyrion tref Dinbych rhwng 25-31Mai 2020.

Un o orchwylion cyntaf y cyfarfod oedd ethol swyddogion ar gyfer y Pwyllgor Gwaith. Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith yw Dyfan Phillips, Pennaeth Ysgol y Llys, Prestatyn, gyda Heledd Owain yn is-gadeirydd. Delyth Williams a etholwyd yn Ysgrifennydd a Gwyrfai Jones sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn Drysorydd.

Dywedodd Dyfan Phillips, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, ei fod yn anrhydedd iddo dderbyn y swydd. "Rwy'n teimlo'n freintiedig bod y cyfarfod wedi fy ethol yn gadeirydd ac edrychaf ymlaen at arwain y criw hwn o wirfoddolwyr er mwyn sicrhau Eisteddfod lwyddiannus yn 2020. Mae gen i angerdd am ddiwylliant yr ardal a'r iaith Gymraeg, ac rwy'n edrych ymlaen yn ddiwyd i groesawu plant a phobol ifanc o bob cwr o Gymru i'r Sir ac i Eisteddfod Sir Ddinbych. Y tro olaf i'r Eisteddfod ymweld â'r Sir oedd yn 2006 ac mae'r atgofion yn dal yn fyw yn fy nghof am y cystadlu a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r Eisteddfod. Y gobaith wrth gwrs yw ein bod yn medru cynnig yr un cyfleoedd bythgofiadwy i blant a phobl ifanc y cyfnod hwn."

Yn ôl Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, "Rydym yn falch iawn bod y swyddogion a enwebwyd wedi derbyn y swyddi ac ein bod wedi llwyddo i ddenu cynifer o bobl i fynychu'r cyfarfod cyntaf. Mae'n arwydd amlwg o'r brwdfrydedd sydd yn yr ardal a'r awydd i weithio dros yr Urdd yn Sir Ddinbych. Mae amryw o bwyllgorau apêl eisoes wedi'u sefydlu yn yr ardal ac mae'r pwyllgorau testun wrthi yn dewis y testunau niferus."



**Swyddogion y Pwyllgor Gwaith – Dyfan Phillips (Cadeirydd), Gwyrfai Jones (Trysorydd), Heledd Owain (Is-gadeirydd) a Delyth Williams (Ysgrifennydd))**

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# Pensaer y dref a phensaer geiriau





Ychydig fisoedd yn ôl, 'sgrifennais erthygl am un o enwogion Dinbych, nad oedd mor amlwg â'r lleill, sef Percy Jones, awdur Methodistiaeth Calfinaidd Dinbych. Mae enwau rhai fel Twm o'r Nant, Thomas Gee, H. M. Stanley, Gwilym R. Jones, Mathonwy Hughes a Kate Roberts yn adnabyddus i bawb, ond, fel Percy Jones, mae dwsinau, er bod eu cyfraniad i'r dref yn sylweddol, yn anhysbys i'r mwyafrif.

Hoffwn gyflwyno Dinbychwr arall sydd a'i waith yn amlycach nag unrhyw un arall, sef Richard Lloyd Williams (1828 -1907). Fe'i ganed yn Llain Henllan yn un o'r tai i'r dwyrain o Eglwys y Santes Fair. 'Roedd ei dad o'r un enw ag ef ac yn feddyg yn y dref.

Addysgwyd y bachgen yn breifat yng Ngholeg Cheltenham ac oddi yno aeth fel clerc erthyglog dan Mr. Fulljames, pensaer o Gaerloyw. Ef oedd pensaer yr Ysbyty Meddwl yma yn Ninbych - profiad go werthfawr ddywedwn i i'r bachgen, gan iddo ymhen amser sefydlu ei fusnes ei hun yn y dref. Cyn bo hir fe'i penodwyd yn Syrfëwr y Sir, swydd y bu'n ei chyflawni am 46 mlynedd. Gan fod ganddo enw mor barchus, fe gafodd y cyfrifoldeb o gynllunio nifer o adeiladau newydd yn yr ardal, sef - Eglwys y Santes Fair, Eglwys Dewi Sant, yr orsaf drenau, clwb y Ceidwadwyr, y neuadd ymarfer i'r milwyr ym Mhwll y Grawys, Yr Ystafelloedd Darllen a hefyd Ysgol Frongoch gynt, sydd heddiw'n Amgueddfa'r dref. Ef hefyd fu'n gyfrifol am Neuaddau Trefol Treffynnon a Llangollen ynghyd â'r ysgolion yn Llanychan, Llanfair Dyffryn Clwyd, Llansannan a Llannefydd. Felly, y tro nesaf yr ewch heibio'r adeiladau yma, ystyriwch, beth oedd yno cyn eu codi? Pa adeiladau yn y dref yr hoffech chi eu dymchwel a beth fyddech chi'n gynllunio yn eu lle?

Ym 1872 cyhoeddodd, ar y cyd gyda'i bartner, Mr. Underwood, y gyfrol Saesneg (prin iawn erbyn heddiw), The Village Churches of Denbighshire. Bu'n aelod o Gyngor Tref Dinbych am flynyddoedd ac yn Faer ym 1864 - 1865, a chafodd ei gladdu ym mynwent Eglwys Dewi Sant. Mae gen i sawl llythyr yn llaw Richard Lloyd Williams. Dyma un, un eitha diddorol, dyddiedig 16eg o Dachwedd 1882 a anfonwyd at gwmni Clough yr arwerthwyr yn tynnu eu sylw at y ffaith eu bod wedi camfesur y byrddau aeth ar werth yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych y flwyddyn honno. Yn ôl y llythyr mae Richard Willams wedi gordalu'r swm o 10s 6d - swm sylweddol bryd hynny wrth gwrs ond dyna rad oedd y byrddau a brynwyd - 84 o lathenni am dair gini, sef £3.30.

<u>Y llythyr</u>

*Messrs Clough & Co*
*Arwerthiant Eisteddfod*
*Foneddigion,*

*O fesur eitem 181, canfyddais, yn ôl eich catlog, ei bod yn cynnwys 1176 o droedfeddi hydol tra mewn gwirionedd 1008 troedfedd hydol ydoedd sy'n ei wneud yn brin o 168 troedfedd hydol, sy'n dod i 10/6. Dychwelwch fy siec os gwelwch yn dda ac fe yrraf un atoch gyda'r swm cywir.*

*Mesurwyd y byrddau gan Louis Sayle.*

*Yr eiddoch yn gywir*

*R. Lloyd Williams*

(Saesneg oedd iaith y llythyr gwreiddiol)


Yn yr Eisteddfod hon 'doedd neb yn deilwng o'r gadair (awdl ar y testun "Dyn") D.R. Williams gipiodd y goron (pryddest ar y testun "Y Cadfridog Garfield"). Ar y bore Mercher gorymdeithiwyd o ganol y dref tua'r castell gyda Seindorf Gwirfoddolwyr Dinbych yn arwain.

Yna cynhaliwyd seremoni'r orsedd gyda Chlwydfardd (David Griffiths 1800 - 1894) o'r dref hon yn arwain. Yn bregethwr poblogaidd gyda'r Wesleaid, fe gerddodd droeon i'w gyhoeddiad - dros 30 o filltiroedd yn aml. Oriadurwr a gwneuthurwr clociau ydoedd wrth ei alwedigaeth ac mae gennyf gloc tywydd o'i waith.

*R.M. (Bobi) Owen*

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

# CIP DROS FY YSGWYDD



*Yn ei erthygl ddifyr iawn am ei ddyddiau ysgol yn rhifyn Ionawr, yr Ysgol Sirol oedd hi i Bobi Owen - 'roedd hynny yn y 40au. Tua dechrau'r pumdegau fodd bynnag, rhoed stamp arall arni, sef yr Ysgol Ramadeg, ac yng nghysgod hwnnw y bu'r pump dewr yma'n cael cip neu ddau ar ddoe eu plentyndod. Llecyn fu gynt yn llawn bwrlwm, balchder, trefn a breuddwydion ond sy' heddiw'n ddim ond cragen wag, tomennydd rwbel a llwyth o atgofion. Dyma nhw.*

Y tro cyntaf i mi fynd i mewn i'r Ysgol Ramadeg oedd y diwrnod yr euthum yno i wneud arholiad yr 11+, cychwyn i griw ohonom o Ysgol Pwll y Grawys oedd yn ddigon pryderus. Cychwyn yn reit ofnus ar y diwrnod cyntaf. Yr oeddwn wedi deall fod y bechgyn hyn yn ein croesawu i'r ysgol gan ein taflu dros y wal i gyfeiriad Ysgol Frongoch. Mi fedrwn redeg yn sydyn iawn pan ddewiswn ac mi redais fel milgi y bore hwnnw!

Prifathro yr ysgol oedd Mr. W.A. Evans, sef "Boss". Roedd yn rhaid i mi gadw allan o drybini gan ei fod yn flaenor yn ein capel, sef Lôn Swan, a'n tad yn gyd flaenor ag ef.

Cynhelid ein gwasanaeth bore yng Nghapel Bodawen yr amser hynny. Yn y capel yma y byddem yn cael gwersi cerdd gan Emrys Cleaver, - dyn oedd yn adnabyddus drwy Gymru yr amser hwnnw. Ac wrth sôn am gerdd, galwai "Triawd Bangor" neu "Bangor Trio" i'n diddanu! Druan ohonom.

Fy hoff bynciau yn yr ysgol oedd gwyddoniaeth, mathemateg a chelf, ond roedd ieithoedd yn fwy anodd, yn arbennig Ffrangeg a Lladin – doeddwn i ddim yn gweld llawer o ddefnydd i'r rhain ar y pryd.

Rhennid y plant i bedwar Tŷ, a'r Tŷ yr oeddwn i ynddo oedd Myddleton ond wnes i ddim disgleirio yn y mabolgampau. Shot put, discus a javelin oedd y rhai roeddwn i'n eu hoffi.

'Roedd y rhan fwyaf o'r athrawon yn ddigon clên ond 'roedd un neu ddau yn reit greulon. 'Roedd un athro yn arbennig felly. 'Roedd ganddo fraich ddiffrwyth, heb deimlad ynddi. Defnyddiai hon fel arf i daro plentyn ar draws ei ben, poenus iawn.

Cofiaf gynhyrfu pan ddaeth Wilfred Pickles i'r ysgol. 'Roedd yn actor a chyflwynydd radio poblogaidd iawn ar y pryd. 'Roedd o wedi dod i Ddinbych i recordio y rhaglen "Have a Go".

Athro arall a gofiaf oedd yr athro gwaith llaw. Ei bleser mwyaf oedd pysgota, felly, gwersi aml i ni oedd gwneud "spinners" ar y lathe iddo. Handi iawn!

Trist iawn yw gweld fod CADW wedi colli'r cais i gadw peth o'r hen adeilad gwreiddiol yn y cynlluniau i adnewyddu'r safle. Buont yn llwyddiannus gyda chynlluniau hen Ysgol Pwll y Grawys drwy gadw rhan o'r waliau allanol.

*Reg Mortimer*



Pedair blynedd o addysg dderbyniais i yn Ysgol Ramadeg Dinbych yng nghanol y pumdegau. 'Roedd disgyblaeth gadarn yn yr ysgol, ac er mai bychan o gorfforaeth oedd Mr. W.A. Evans, y prifathro, 'roedd un floedd ganddo yn sobri pawb i ufudd-dod llwyr. Dwy ffrwd oedd ym mhob blwyddyn ac o'r bedwaredd flwyddyn cai'r disgyblion eu didoli i'r ffrwd 'academaidd' – 4A neu i'r ffrwd pynciau mwy 'cyffredin' – 4G. 'Roedd dau ddosbarth yn y chweched flwyddyn – 6A (Celfyddyd) a 6Sc (Gwyddoniaeth). Byddai'r mwyafrif o'r athrawon yn gwisgo gŵn blaen yn y gwersi dyddiol, ond ar ddiwrnod gwobrwyo, byddent yn eu gŵn graddio a'r cap yn edrych yn urddasol iawn.

Gan nad oedd neuadd bwrpasol yn yr ysgol ar y pryd, defnyddid adeilad capel Bodawen, oedd ar draws y buarth, i gael ein gwasanaeth boreol. Ar fore gwlyb neu rewllyd buasai amal i un yn dymuno troi'n Gatholigion, gan nad oeddent hwy yn ymuno yn y gwasanaeth.

Ym Modawen y caem ein gwersi cerddoriaeth gan Mr. Emrys Cleaver. Oherwydd nad oeddwn i'n gerddorol, byddwn i ac ambell i un arall yn eistedd yn y cefn yn gwneud ein gwaith cartref tra 'roedd y disgyblion cerddorol yn cael gwers. 'Roedd hyn yn fy mhlesio i'r dim!

Byddai un diwrnod yn y flwyddyn yn hunllef i mi – sef diwrnod y 'Bangor Trio', a'r holl ysgol ym Modawen yn eistedd i werthfawrogi neu yn fy hanes i, i freuddwydio.

Pan yn y bumed flwyddyn (blwyddyn unarddeg heddiw) cefais fynd ar wibdaith addysgol i waith dur Shotton. 'Roedd cyfle fel hwn yn eithriad yr amser hwnnw a gwnaeth y diwrnod gryn argraff arnaf gan fy mod yn gallu dwyn i gof ehangder y lle, y sŵn a'r gwres anhygoel o'r ffwrneisi.

Byddem yn cael Eisteddfod a diwrnod mabolgampau yn flynyddol. Cynhelid yr Eisteddfod yn Neuadd y Dref a'r mabolgampau ar gae Y Graig. Rhennid y disgyblion i bedwar tŷ - Stanley (gwyrdd), Salisbury (glas), Mytton (melyn) a Myddleton (coch) a byddai cystadlu brwd ar y ddau achlysur. Bûm yn arweinydd Stanley yn fy mlwyddyn olaf ac am ryw reswm bu raid i mi arwain y côr y flwyddyn honno! Dwi'n dal i gofio symudiadau'r cyfrif i bedwar - ond dim cof o'n safle yn y gystadleuaeth, ond syniad go lew nad oedd ein siawns yn uchel.

Yn flynyddol hefyd cyhoeddwyd cylchgrawn


**Autoclinic Glyn Evans**



Stâd Ddwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA
Atgyweiriadau damwain, gwaith adfer o safon, jig,
cyfleusterau crasu isel, gwasanaeth cyrchu 24 awr
**Ffôn:(01745) 815141**

ysgol – 'Y Bŷch' gydag ysgrifau a chyfraniadau gan y disgyblion.
Yn ogystal, cynhelid amryw o gymdeithasau yn yr ysgol - Cymdeithas Lenyddol a Siarad Cyhoeddus, Cymdeithas Gwyddoniaeth, Cymdeithas Hanes, Clwb Celf a Chrefft a'r Gymdeithas Gymraeg. Byddai'r siaradwyr yn cynnwys disgyblion, athrawon ac enwogion o'r tu allan. Cafodd y Gymdeithas Gymraeg anerchiad ar 'Ddweud Stori' gan y Dr. Kate Roberts ym 1957. Hefyd daeth Mr. Ronald Thompson, ffotograffydd lleol, i roi sgwrs i'r Clwb Celf a Chrefft ar ddau achlysur. Rhoddodd Mr. Stanley Jones, athro hanes, anerchiad i'r Gymdeithas Gymraeg ar 'Ddyled Cymru i'r Ysgol Sul'. Ef hefyd a sefydlodd y Gymdeithas Hanes ym 1957 a rhoi sgyrsiau difyr ar hanes Dinbych. 'Roedd y cymdeithasau hyn yn boblogaidd iawn gyda'r disgyblion.
Erbyn terfyn fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol 'roedd neuadd bwrpasol wedi ei hadeiladu, ond yr unig weithgaredd a gefais i ynddi oedd eistedd fy arholiadau Lefel A.
Treuliais bedair blynedd hapus iawn yn yr ysgol. Bydd yn chwith colli'r hen adeilad ond fe erys yr atgofion.

*Myfanwy Williams*

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"



Nid oedd yr Ysgol Ramadeg yn ddiarth i mi gan mai i'r hen Ysgol Frongoch, sydd ar draws y ffordd o "Denbigh Grammar School" y treuliais fy saith mlynedd gyntaf addysgiadol. Roeddem yn un criw mawr yn cerdded yn un rhes ar draws y ffordd bob amser cinio i'r cantîn, ac fe edrychais ymlaen at gael ymuno â'r plant mawr petawn yn pasio'r scholarship. Wedi llwyddo i basio, 'roedd rhaid prynu iwnifform newydd sbon o siop Caradog Rees. Cofio y diwrnod cyntaf, teimlo'n nerfus a chynhyrfus wrth wisgo beret a blesyr, gymslip, blows a thei, a mac nefi blw hir.
Roedd dwy ffrwd i'r Ysgol, ac yn naturiol i'r ffrwd Gymraeg es i. Cefais dair blynedd hapus iawn mewn dosbarth Cymraeg a buan y gwnes ffrindia hefo genod o'r wlad. Ar ôl y tair blynedd cyntaf cawsom ein symud i ddosbarth cymysg ei iaith, teimlais na chawsom yr un chwarae teg mewn gwersi gan i'r dosbarth fod yn fwy yn y bedwaredd flwyddyn.
Awyrgylch digon Seisnig oedd i'r ysgol 'roedd tri chwarter yr athrawon yn Saeson a buan iawn y daethom i arfer ag enwau tebyg i Stone, Tordoff, Harding, Collins, Masters a Mastern. Roedd ambell Gymro ymhlith yr athrawon, un oedd Stanley Jones, ni chlywais yr un gair o Gymraeg ganddo yn ei wersi Hanes.
Erys dylanwadau rhai o'r athrawon yn gryf arnaf. Roeddwn wrth fy modd yn nosbarth R.H. Evans (Bob Ef i ni'r plant). Dysgu Cymraeg oedd Bob Ef, ac er bod ganddo ychydig o atal dweud, roedd yn athro arbennig ac fe ddysgais lawer am farddoniaeth Cymru a'i hanes, ac fe lwyddodd i ddysgu'r cynganeddion i mi.
Dylanwad arall arnaf oedd O.H. Tordoff, llwyddodd i ddysgu Daearyddiaeth ein byd mewn ffordd ddiddorol iawn.
Athrawes amhoblogaidd oedd Miss Prudence Jones, dysgu coginio a gwnïo oedd Prue, ac o dan ddisgyblaeth lem dysgais greu ambell i flows a phryd o fwyd blasus - pethau nad anghofiaf byth.
Ar ôl i Emrys Cleaver adael, daeth Miss Catherine Evans i ddysgu cerdd. Ei chryfder hi oedd cystadlu a chawsom lwyddiant mewn eisteddfodau'r Urdd a chyntaf mewn cystadleuaeth côr yn Eisteddfod Llangefni 1957.
Ond chwaraeon a P.E. oedd fy hoff bethau. Cawsom athrawes ifanc, sef Miss Betty Brookes i'n dysgu, ac mi roedd hi'n ysbrydoliaeth i ni gyd. Roeddwn wrth fy modd allan yn gwneud campau (nid oedd gym tu mewn) a chwarae hoci. Buan y gwelodd botensial ynom, ac fe gefais y fraint o chwarae hoci i dîm yr ysgol a rhedeg dros yr ysgol yn Sports y Sir.
Roeddem ni'r genod yn lwcus o gael chwarae hoci ar y llain wrth yr ysgol, a'r bechgyn yn gorfod chwarae pêl-droed ar Gae y Graig. Ond bob amser cinio, roeddem yn cyfnewid bob yn ail ddiwrnod hefo'r bechgyn, nhw'n cael ymarfer ar y cae a ninnau'n chwarae ar yr iard. Ar y cyfan, dyddiau hapus, braf oeddynt ac mae'n chwith gweld yr hen ysgol yn cael ei chwalu, ond erys yr atgofion.

*Olwen Roberts*



Trist yw gweld yr Ysgol Ramadeg yn cael ei dymchwel yn enwedig yr hen adeilad gwreiddiol. 'Roedd y ddau ohonom yn ddisgyblion yno am bum mlynedd yn y pumdegau, ac wedi byw gyferbyn am 42 o flynyddoedd! Oes wedi mynd heibio ac atgofion yn llifo.
Dechreuwn yn y dechreuad.
1952


**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**
**01745 812400**
**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych**

* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

Yn 11 oed doedd Phoebe dim ond eisiau croesi'r ffordd o Ysgol Gynradd Frongoch i'r Ysgol Ramadeg. Ar y llaw arall, 'roedd Tom yn dod o Ysgol Rhydgaled, gyda dim ond prifathro ac un athrawes, yn Gymro uniaith i'r ysgol FAWR yn y dre'. Tro ar fyd!
Wedi ein dethol i ddosbarthiadau 'roedd eisiau dod i adnabod yr holl athrawon. Mr. W.A. Evans (Boss) oedd ein Prifathro a Mr E.H. Clements yn ddiweddarach. Miss Jenkins (Jenks) yn brifathrawes, a llu o athrawon megis: Stan, Ned, Cleaver, Bob Ef, Collins, Jack Tar, Dutton Williams, Clem, Tusky, Itchy, Tordoff, Tough Ted, Joe English, Marsden, Wenna Hughes, Jones Chemi, Miss Stone, Prue a Miss Brookes. Eu ffug enwau gennym ni'r disgyblion yw'r rhan fwyaf wrth gwrs!
Y gwahaniaeth rhwng y ddau brifathro oedd eu modd o ddisgyblu. W.A. yn defnyddio "streips", sef cansen ar y pen ôl neu'r dwylo i'r bechgyn. "Detention" i'r genethod. Dull Clements oedd ein gyrru i gasglu sbwriel.
Gwnaethom ffrindiau o'r newydd a dod i arfer gyda'r "ysgol fawr" yn fuan. Y ddau ohonom yn cychwyn ein gyrfa yn nosbarth 1W, er nad ydym yn cofio'n gilydd yn ystod y cyfnod hwnnw.
Wrth reswm, cawsom addysg gwerth chweil a disgyblaeth dda yn ystod ein cyfnod yn yr ysgol, ond atgofion eraill sy'n aros yn y cof.
Diddordeb pennaf Tom oedd chwaraeon, - pêl-droed a chriced yn enwedig. Wrth ymarfer ei sgiliau pêl-droed yn ystod un awr ginio, ciciodd y bêl a tharo pen athro o'r enw "Stan" yn anfwriadol, a chael clusten ganddo am ei drafferth!
'Roedd Phoebe yn siaradus yn y dosbarth ac yn cael ei bygwth gan un athro. "Na'i ddweud wrth dy fodryb," sef "Miss Annie", oedd yn athrawes yn Ysgol Fabanod Frongoch. Y gosb oedd ysgrifennu "hundred lines", "I must not talk in class". Defnyddio dau bensil ar unwaith ac yn cwblhau'r dasg yn hanner yr amser! Phoebe hefyd yn cael "detention", am wrthod gwisgo "beret", oedd yn rhan o'r wisg ysgol. Hyd heddiw mae'n gas gennyf wisgo het o unrhyw fath ar fy mhen.
Y ddau ohonom yn cofio mynd i siop Mrs Addie i brynu creision a melysion yn ystod amser chwarae. Atgof arall oedd ymweliad blynyddol y "Bangor Trio", a phawb yn diflasu gwrando arnynt yn fuan iawn.
Mae'n debyg mai'r effaith fwyaf parhaol gafodd yr Ysgol Ramadeg arnom, oedd mai yno, yn nosbarth 5U, y daethom yn ymwybodol o'n gilydd, a dechrau canlyn. Yn y cyfnod yma, cafodd Tom ei fathodynnau (colours) am gynrychioli'r ysgol yn y timau pêl-droed a chriced. 'Roedd angen rhywun i'w pwytho ar ei siaced ysgol (blazer), ac am ryw reswm yn penderfynu gofyn i Phoebe! 60 mlynedd yn ddiweddarach 'da ni yma o hyd!
I ddyfynnu'r gan, roedd dyddiau ysgol yn -
"Ddyddiau difyr, dyddiau difyr iawn!"
Gall rhywun ddymchwel yr adeilad ond all neb chwalu ein hatgofion. A dyma'r gwaith cartref wedi ei gwblhau ar amser am unwaith!

*Phoebe a Tom Lewis*

***CAPEL Y FRON*** *DINBYCH*

ARWERTHIANT ADDEWIDION
**Nos Wener 9fed Chwefror 2018**
Ym Melin Brwcws
Am 7.30 p.m.
Arwerthwr Mr Glyn Owens

Plaid Cymru | Party of Wales
**Llyr Gruffydd AC**



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:
**Llyr Gruffydd AC**
**Canolfan Fusnes Birch House**
**Hen Lôn Parcwr**
**Rhuthun**
**LL15 1HN**
**01824 703593**
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

**Yn gweithio dros y gogledd**
**@LlyrGruffydd**
**www.llyrgruffydd.cymru**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**MALDWYN WILLIAMS**

Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR

GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk



**CLWB FFERMWYR IFANC YSGOL CALEDFRYN DINBYCH (TUA 1953)**
Rhes gefn: Mr. Richards (Prifathro), Clifford Howard,?, ?, ?, David Edwards, William Jones, Elwyn Roberts, Colin Smith, Gwyn Jones, Emyr Jones, Mr. Smith (athro)
Rhes ganol: Miss Carr (athrawes), ?, Mrs Barbara Roberts, Mary Rafferty, Mr. Robert Hughes, Brynmor Roberts, ?, ?, Tecwyn Thomas (Trefnydd CFF)
Rhes flaen: Esmor Ellis, Beti Davies, Nerys Nash, Mary Wynne, Valerie Millward, Glenys Roberts, ?, Nesta Jones, Aled Jones
Yn eistedd yn y blaen: Bryan Perry, Brian Williams, Gwynfor Davies
***Oes 'na rywun o ddarllenwyr Y Bigwn all ein helpu i lenwi'r bylchau? Os oes, cysylltwch â'r golygydd. Diolch yn fawr.***



**Athrawes o Fri** Llun yw hwn o ddosbarth babanod, Ysgol Sul Y Capel Mawr ym 1909. Cafwyd hyd iddo ynghanol casgliad o gylchgronau "Y Gymraes" oedd ym meddiant Jane Jones, hen nain i Margherita Jones, Tŷ Gwyn, Ystrad. Ar y pryd, roedd hi'n byw ym Mhen Porchell Ucha. Yr hyn sy'n nodedig am y llun, yw'r athrawes, Miss J. Dryhurst Roberts (sydd i'w gweld yng nghefn y llun). Fe ddisgrifir ei dawn yn yr erthygl fel, "cynllun a dull o beth ddylai dosbarth babanod fod." Haeddiannol iawn. Ond, nid dyma ddiwedd y stori. Yn nechrau'r pedwardegau, hi, sef Miss J. Dryhurst Roberts oedd athrawes Ysgol Sul Olwen, y wraig 'ma a'i chyfoedion yn y Capel Mawr. Dyna i chi beth oedd ymroddiad a gwasanaeth a bu ei chyfraniad dros y blynyddoedd yn destun cryn dipyn o barch ac edmygedd. (Gol.)




# Ddoe yn nhwll y mwg

Mae 'mhartner a finnau newydd brynu tŷ, tŷ â dipyn o waith gwneud arno fo – sôn am dynnu llanast i'm mhen. Ond rydw i'n lwcus achos mae dad yn gwybod be' 'di be' yn y byd adeiladu 'ma, dyna'i fara menyn o. Lwcus 'de. Rydym ni bron wedi gorffen cael gwared â'r plaster – tunelli o'r blwming stwff, a'r hen lefydd tan hefyd. Wrth wneud hynny, manteisio ar y cyfle i lanhau'r simdde. Roedd hi'n llawn joc o hen bapurau newydd. Er eu bod nhw'n dew o huddug roedden nhw'n dal yn ddarllenadwy ac wrth sbrowla mi welais hysbyseb yn un ohonyn nhw. Hysbyseb ym mhapur 'Y Sun' oedd hi gan goleg yn ymyl King's Lynn, Swydd Norfolk oedd yn chwilio am ddarlithydd neu hyfforddwr yn y grefft o godi sgaffaliadau. "Nefi," medda' dad pan welodd o hi, "fynno yr es i i ddilyn cwrs saer maen pan o'n i'n llabwst un ar bymthag!" Ac o dan yr huddug, ar ben y dudalen, roedd y dyddiad, Hydref 1978, a dyma'r flwyddyn y cychwynodd dad ar ei gwrs. Mi fyddwn ni'n fframio'r hysbyseb fach yma – ar ôl 'i llnau wrth gwrs. Anhygoel ynte!

*Cirin Roberts*

**Cyfarfod Blynyddol Y Bigwn**

**Nos Fercher, Mawrth 7fed am 7.30 yn festri Capel Mawr**

# Tudalen y Plant

Y BIGWN


**(1) Allwch chi ddatrys y broblem fach yma?**

Fe adeiladodd Sionyn gwt bach sgwâr dan un o'r coed 'falau yn y berllan. Defnydiodd wyth darn o bren wedi eu gosod ar eu pennau ar gyfer pob ochor i'r cwt. Sawl darn o bren oedd o eu hangen?
(Mae'r ateb ar dudalen ?)

(2)Pa ddweud bachog sy'n cuddio yn y llun yma?

Mae'r ateb ar dudalen ?






Man cychwyn


1. Mae hon yn eich helpu i weld
2. Ffrwyth sur iawn
3. Afon fechan
4. Rydych chi'n berwi dŵr yn hwn
5. Mwy nag un llawr
6. Dod at ein gilydd
7. Igam ______
8. Chwaer mam
9. Un sy'n torri gwallt
10. Rhedeg yn gyflym
11. Un dda am ddweud yr amser
12. Math o bwdin
13. Diog

**Cylchair**

Cofiwch fod llythyren olaf un gair yn dechrau i'r gair sy'n dilyn e.e. platatwsiopys. Cofiwch hefyd mai llythyren ydi ch, dd, ff a.a.

**Lliwiwch y ddau gylch Celtaidd yma, a hwyrach y cawn weld yr un gorau yn rhifyn nesa' Y Bigwn.**








Diolch yn fawr iawn i bawb a'n noddodd ni i redeg hanner marathon Conwy ar ddiwedd mis Tachwedd. Casglwyd dros £820 ar gyfer elusen Parkinson's UK. Diolch am eich cefnogaeth, Ffion a Leah.

## "DIGON I BAWB"

Efallai i chi ddarllen yr erthygl yn dwyn y teitl "Digon i bawb y Nadolig hwn gyda Cymorth Cristnogol". Yn ôl y paragraff agoriadol, "Eleni mae Llywodraeth Prydain yn dyblu cyfraniadau – punt am bunt – tuag at yr Apêl Nadolig. Dyna ddwbl y gefnofaeth i bobl sy'n byw mewn tlodi."

Yn dilyn y cyhoeddiad hwn gan y Llywodraeth, dyma Swyddogion ac Aelodau Capel Lôn Swan yn y dref yn penderfynu fod casgliadau rhydd y noson "Blas y Nadolig" a Gwasanaeth Nadolig y Plant i fynd tuag at yr apêl arbennig hon – sef Apêl "Digon i Bawb".

Casglwyd bron i £200, a gyda'r Aelodau'n cytuno i efelychu'r Llywodraeth a dyblu'r cyfraniad hwn, gyrrwyd siec am £400 i Gymorth Cristnogol.

Felly, gyda chyfraniad o £400 arall gan y Llywodraeth, a £33.67 ychwanegol drwy Rhodd Cymorth, roedd £833.67 yn mynd i goffrau'r elusen oherwydd haelioni aelodau a chyfeillion Capel Lôn Swan - diolch yn fawr!

Yn ôl llythyr o ddiolch gan Anna Jane Evans, Cydlynydd y Gogledd i Gymorth Cristnogol, "Gall eich rhodd helpu pobl fel Agor Jonekor yn Ne Swdan. Wrth i'r cynhaeaf fethu eleni am y drydedd flwyddyn yn ddilynol, pobl tlawd fel Agor sydd fel arfer yn dioddef fwyaf."

*John Davies*

## GALWAD I GANTORION

Yn ystod Mai/Mehefin 2019, bydd NOVA Center for the Performing Arts, mewn cyd-gynhrychiad gyda Rimrock Opera Foundation yn Billings, Montana, UDA yn perfformio *Blodwen* Joseph Parry (yr opera Gymraeg gyntaf) – yn Gymraeg! - gydag uwchdeitlau Saesneg. Bydd tocynnau ar werth o fis Medi 2018 – mae nifer y seddau'n gyfyng, felly'r cyntaf i'r felin … http://www.novabillings.org

Dyma fydd y cynhyrchiad llwyfan cyfan cyntaf o *Blodwen* yn America, gan ddefnyddio fersiwn siambr 2015 Dulais Rhys o'r gerddoriaeth. Am fwy o wybodaeth: http://dulaisrhysmusicservices.com/blodwen.htm

GALWAD I GANTORION: mae Rimrock yn gwahodd cantorion proffesiynol o Gymru sydd â diddordeb mewn ymgeisio am Brif Ran i anfon portffolio proffesiynol at y Llywydd: Ms Lucinda Butler, 4964 Nez Perce Lookout, Billings, Montana 59106, UDA neu operapresident@hotmail.com

Disgwylir i'r unawdwyr gynorthwyo cantorion Rimrock gyda chanu yn Gymraeg.

## Hwyl y bowlio

A dyna ni, pen tymor arall i'n cyfarfodydd nos Iau yng Nghapel y Fron. Fel y gŵyr y rhan fwya' o'n darllenwyr, maen nhw'n gyfarfodydd gwahanol i' rheini a gynhelir yng nghysgod unrhyw bulpud a set fawr fel arfer ond yr un ydi'r cynhesrwydd a'r pleser. Y gwahaniaeth mawr ydi, pan mae pethau'n mynd o chwith, fod 'na 'chydig mwy o dynnu blew o drwyna' pobol, na gaech chi yng nghwmni criw mwy gwaraidd. Ond at 'i gilydd, anamal iawn mae hi'n mynd yn ffrwgwd a rhywun yn mynd dros ben llestri. 'Does ond angan dangos y drws ac mae pethau'n tawelu.

Eleni eto mae ein dyled yn fawr i John a June am y trefnu, y paratoi a'r paneidia! Diolch yn fawr i chi. A dilyn y drefn, fe gawson ni ornest neu ddwy tua diwedd y tymor a'r un aeth a hi yng nghystadleuaeth y senglau oedd Clwyd, a fo hefyd, gyda'i bartner Tegwen, ddangosodd inni be' oedd be' yng nghystadleuaeth y dyblau. Un da am roi chwip dîn 'di Clwyd!

Does dim gwell ffordd (i ni fel criw beth bynnag) o roi pen ar y mwdwl, na'i throi hi am y Ganolfan Fowlio ym Mhrestatyn, - honlgad o le, ond cartrefol a chroeso cynnes y staff yn arbennig. Fe gawson ni'n difetha'n racs – mae John a June 'ma'n haeddu medal am yr holl waith trefnu. Ein diolch eto. I gloi'r noson, fe gawson ni chwip o swpar tri chwrs, a'r platiau glan ar ddiwedd y claddu yn adrodd cyfrola'. Wir ryr, roedd o'n bryd a hannar ac yn dipyn o fargan. Noson arbennig iawn ac mae 'na hen edrach ymlaen am y nesa'.

Lluniau ar dudalen gefn

---

Dyma i chi ddau englyn â dderbyniwyd drwy law Brynmor ac Eirlys Roberts, Pontruffydd, Bodfari. Y naill gan T. Gwynn Jones a'r llall gan y Doctor Tomos – dau oedd yn adnabod ei gilydd yn dda. Rhyw reswm dros beidio a dod i'r dref yw neges un T. Gwynn Jones, a hynny, mae'n debyg ar ôl addo ymweld â'r ardal. Ni wyddus pam!

Untro dringwn i'r entrych – yn ystwyth!
Heb anhawster anwych!
I mi'n awr y mae o'n nych
Yn enbyd ar riw Dinbych.

A dyma ateb y Doctor Tomos sydd hwyrach wedi ei siomi ond sy'n cynnig rhyw fath o gysur a chymorth i'w ffrind –

Od, enbyd ydyw Dinbych – i'r Angel
A ddringodd i'r entrych;
Gyrred am feddyg gorwych
I adfer nerth, a difa'r nych.

Roedd cefnder i dad Eirlys wedi priodi Eluned, sef merch T. Gwynn Jones a modryb Ceredig Gwynn sy'n byw ers blynyddoedd ar Stryd y Dyffryn, y rhiw hwnnw hwyrach a dorrodd galon ei daid.

# DOD Â PHOBL AT EI GILYDD

Ydych chi yn ysu cyfarfod rhywun eto? 'Da chi'n chwilio am berthynas gwaed? Neu'n dymuno dod o hyd i'r person hwnnw wnaeth gymwynas â chi flynyddoedd yn ôl? Ydych chi angen dweud diolch wrth rywun? Neu ail-gynnau tân ar hen aelwyd?!

Dyma gyfle ichi gael dod ynghŷd...

Bydd cyfres newydd gyffrous ar S4C yn rhoi'r cyfle i bobl gyfarfod – boed ers blynyddoedd maith neu am y tro cyntaf un – mewn cyfres o aduniadau ddaw â phobl yn ôl at ei gilydd i wireddu dyhead i weld rhywun o'r gorffennol unwaith yn rhagor.

Bydd 'na aduniadu yn digwydd rhwng aelodau teulu gwaed sydd wedi bod ar wahân am flynyddoedd, rhwng unigolion sy' wedi colli cysylltiad, rhwng cyn gyd-weithwyr, cyn-filwyr, aelodau o'r gwasanaethau brys a'r rhai a achubwyd.

Dyma gyfle bythgofiadwy i ail-gydio yn y gorffennol, i ddod i adnabod perthynas am y tro cyntaf, i ail fyw profiadau melys a thrist, cyfle i ail-gydio mewn hen garwriaeth, cydnabod rhywun wnaeth ysbrydoli, neu ddweud diolch wrth rywun wnaeth dro da pan oedd wir angen.

Mae'r cwmni teledu Darlun yn estyn gwahoddiad i unrhyw rai sydd â diddordeb i gysylltu i drafod ymhellach.

**Os ydych CHI eisiau cyfarfod efo rhywun eto, cysyllwch am sgwrs bellach efo Gwen o gwmni teledu Darlun ar 01248 531531 neu drwy ebost at gwen@darlun.tv**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | | 4 | 5 | | | 3 | 1 | 8 |
| 1 | | | 8 | | | 6 | | |
| 6 | | 2 | | | | 4 | | |
| | 5 | 6 | | | 3 | | 7 | |
| 8 | | | 9 | | 2 | | | 4 |
| | 2 | | 1 | | | 8 | | |
| | | | 2 | | | 1 | | 3 |
| | | 9 | | | 5 | | | 2 |
| 2 | 4 | 7 | 3 | | | | | 5 |

# Rowlio'r Gasgen

Trodd cannoedd o fobl allan ar fore San Steffan sych a heulog yn Ninbych i wylio'r 59fed Pencampwriaeth Cymru o Rowlio'r Gasgen, lle cymerwyd rhan gan gyfanswm o 26 o gystadleuwyr hŷn a 70 o gystadleuwyr iau. Roedd agwedd wirioneddol rhyngwladol i'r digwyddiad eleni gyda chystadleuwyr o mor belled ag America, Yr Almaen, Y Swistir a sawl rhan o Brydain - rhestr o'r enillwyr fel a ganlyn:

Bechgyn Iau - Alfie Hoyles o Ysgol Henllan, Merched Iau - Ffion Jones o Ysgol Twm Or Nant, Bechgyn Hyn - Gwyn Williams o Ysgol Glan Clwyd
Merched Hyn- Freya Mesham o Ysgol Uwchradd Dinbych

Enillydd Pencampwriaeth y Dynion - Gareth Owen o Lannefydd. Enillydd Pencampwriaeth Merched - Tina Hoyle o Ddinbych. Enillwyr Tîm - Llion Edwards ac Ioan Jones o Ddinbych

O flaen y prif ddigwyddiad, cafodd y dyrfa eu difyrru gan orymdaith o hen dractorau, gyda 25 o amrywiol wneuthuriad a maint yn cael ei gyrru dros y dre. Dilynwyd wedyn gydag ymweliad gan geffylau a chwn Helfa Fflint a Dinbych.

Mae gwerthiant y tocynnau raffl eto eleni wedi bod yn rhagorol, gyda dros tair mil a hanner o docynnau wedi eu gwerthu. Ynghyd â noddi gan amryw o gwmnïau a sefydliadau lleol, bydd cyfanswm yr arian a godir o'r digwyddiad yma dros £7,500, a gaiff ei ddosbarthu i wahanol elusennau dros y deuddeng mis nesaf.

Enillwyr y tocynnau raffl oedd:
Gwobr gyntaf - Eleanor Roberts o Lanrwst
Yr ail wobr - Gwyn Williams o Ddinbych
Y drydydd wobr - Beryl Jones o Ddinbych

Hoffai Clwb Rotary Dinbych ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y digwyddiad yma eto eleni.

### Ffeithiau bach difyr!

7. Ond 1.34% o aur sy' ym medalau aur y Gemau Olympaidd.

8. Rhoddwyd yr hawl i ferched bleidleisio am y tro cyntaf ym 1919, ond 'roedd yn rhaid i chi fod dros 30. Ym 1928 gostyngwyd yr oed i 21 a bu'n rhaid aros wedyn tan 1969 cyn y rhoed yr hawl i bleidleisio yn 18 oed.

**BROOKHOUSE MILL**
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377



## Y ddau Huw

Daeth Huw Stephens o Radio Cymru a Radio 1 i Siop Clwyd ganol mis Rhagfyr i recordio eitemau i'w raglen. Tra yno, daeth Huw ein cartwnydd i mewn. Felly tipyn o syrpreis i gael y ddau Huw yn siarad gyda'i gilydd ac yn trafod ei gyfraniad i'r Bigwn ers bron i 30 o flynyddoedd.
*Medwyn Williams*

## Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018

Cadeirydd: Iwan Morgan: ebost: iwan.morgan@ymail.com
Ysgrifennydd: Bethan Haf Jones, 01766 830435 ebost: bethaniwan@yahoo.co.uk
Trefnydd yr wyl: John Eifion Jones ebost: johneifionjones@yahoo.com

Annwyl Ddarllenwr,

Yn Nhachwedd 2018 mae Gŵyl Genedlaethol Cerdd Dant Cymru yn ymweld a Blaenau Ffestiniog a'r Fro. Mae hwn yn ddigwyddiad cenedlaethol cyffrous i'r ardal ac mae edrych ymlaen garw at y digwyddiad.
Cynhelir yr ŵyl dros benwythnos ym mis Tachwedd. Mae hin wyl sy'n denu cystadleuwyr o bob cwr o Gymru a chaiff ei darlledu'n llawn ar S4C.

Mae'r pwyllgor gwaith a sefydlwyd yn dilyn cyfarfod cyhoeddus y llynedd wedi dechrau ar y dasg o godi arian i sicrhau gŵyl lwyddiannus a chofiadwy. Targed ariannol yr ŵyl yw £40,000. Mae'r pwyllgor gwaith yn gweithio'n galed iawn trwy drefnu digwyddiadau er mwyn codi arian i gyrraedd y nod.

Rydym yn troi atoch fel darllenwyr i ofyn yn garedig am eich cefnogaeth. Rydym yn gobeithio y byddwch mewn sefyllfa i ystyried y cais am gefnogaeth i'n galluogi i gyrraedd ein targed.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch mae croeso i chi gysylltu hefo ni yn uniongyrchol.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Iwan Morgan (Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith)
Dewi Lake (Cadeirydd Pwyllgor Cyllid)

## Cyhoeddi cyflwynwyr newydd Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd wynebau newydd a chyfarwydd yn dod ynghyd i gyflwyno un o gyfresi hynaf S4C ar ei newydd wedd nos Sul, 4 Chwefror ar S4C.
Mae'r gyfres grefyddol **Dechrau Canu Dechrau Canmol** wedi bod yn rhan annatod o amserlen S4C ers 1989, ond o hyn ymlaen bydd pump cyflwynydd newydd yn ymuno âr rhaglen.
Yn eu plith mae cyflwynydd BBC News at Ten, Huw Edwards, a'r dyfarnwr rygbi Nigel Owens sydd wedi dweud yn y gorffennol mai'r emyn 'Mor Fawr Wyt Ti' yw'r gân olaf mae'n gwrando arni cyn camu ar y cae.
Y cyflwynydd Lisa Gwilym, yr actor a cherddor Ryland Teifi a'r cyflwynydd Nia Roberts, sydd wedi cyflwyno'r gyfres yn y gorffennol, sy'n cwblhau'r rhestr.
Mae'r gyfres yn cynnwys canu mawl mewn amryw o leoliadau ar draws Cymru a chyfweliadau gyda phobl am eu ffydd a chredoau. Bydd rhaglenni arbennig yn ystod y flwyddyn yn nodi'r dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol ac achlysuron cenedlaethol.
Mi fydd rhaglen gynta'r gyfres yn dilyn y thema rygbi i gyd -fynd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018. Owain Arwel Hughes fydd yn arwain y canu cynulleidfaol sy'n dod o Eglwys Dewi Sant, Castell Nedd.
Bydd sgyrsiau gyda'r sylwebydd rygbi Alun Wyn Bevan ac arweinydd Côr y Gleision, Richard Vaughan yn ogystal â chyfweliad gyda Manon a Gwenan Gravell, merched y diweddar Ray Gravell.
Meddai Amanda Rees, Cyfarwydd Creadigol Cynnwys S4C, "Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol yn un o gonglfeini gwasanaeth S4C ar nos Sul. Mae'n gyfle i ddathlu'r traddodiad mawl a chanu arbennig sy'n ein nodweddu ni fel gwlad, yn ogystal â chyfle i gael sgyrsiau difyr gydag amrywiaeth o bobl am eu profiadau ysbrydol a'r gwerthoedd moesol sy'n bwysig iddyn nhw. Mi fydd hi'n braf iawn cael gweld y cyflwynwyr newydd ar y sgrin ym mis Chwefror, gyda phob un ohonyn nhw'n cynnig rhywbeth gwahanol a chyffrous i'r gyfres."




**Garej Ffowndri**
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur

01745 812482

## Clwb Pêl-droed Dinbych

O ganlyniad i'r tywydd gwael yn ystod y mis diwethaf, bu rhaid gohirio dwy o gemau Dinbych yn ddiweddar ac mae hyn wedi effeithio arnyn nhw'n disgyn i'r 3ydd safle yn y gynghrair, 5 pwynt tu ôl i'r arweinwyr, Caernarfon, gyda gêm ychwanegol i'w chwarae.

Yn dilyn buddugoliaeth arbennig o 5-3 yn erbyn y Rhyl, gwrthwynebwyr nesaf Dinbych oedd Rhuthun oddi cartref ar ddiwrnod San Steffan o flaen torf o dros 500 o bobl. Rhuthun a ddaeth i'r brig yn haeddiannol o 3-1 gyda goliau gan Gwion Owen, Jordan MacCarter a Llyr Morris, gyda Josh Davies yn sgorio cic o'r smotyn i Ddinbych.

Nesaf, croesawyd yr arweinwyr, Caernarfon i Ddinbych gyda thorf o 400 o bobl. Roedd y gêm hon yn hynod ddifyrrus gyda Dinbych yn dominyddu am ran helaeth ohoni a dylent fod wedi gorffen y gêm yn fuddugwyr. Gyda dim ond deg munud i fynd, roedd Dinbych ar y blaen o 3-2 gyda goliau gan Warren Duckett, Andrew Swarbrick a Craig Pritchard. Roedd Caernarfon lawr i ddeg dyn yn dilyn ail gerdyn melyn i Rhys Roberts. Ond yn anffodus, yn ystod munudau olaf y gêm, gwobrwywyd Caernarfon gyda chic o'r smotyn i'w gwneud hi'n 3-3 â'r chwiban olaf yn canu.

Yn dilyn hynny, cafwyd buddugoliaeth yn erbyn Cyffordd Llandudno o 6-1 gyda goliau gan Josh Davies(2), Kristian Pierce (2) a Gareth Partridge (2).

Mae'r gemau nesaf yn hanfodol i Ddinbych wrth iddynt gadarnhau eu tymor a'u gobeithion o gyrraedd brig y gynghrair gyda gemau allweddol yn erbyn Porthmadog, Treffynnon a'r Fflint. Ychwanegodd y rheolwr, Eddie Maurice-Jones at ei dîm rheoli yn ystod y mis diwethaf gan apwyntio cyn-reolwr y clwb, Richard Williams-Cooke fel ei is-reolwr newydd.

Cafodd y tywydd gwael effaith hefyd ar gemau'r Ail Dîm wrth iddynt chwarae dim ond un gêm yn ystod y mis diwethaf, a honno'n fuddugoliaeth o 4-2 yn erbyn Llangefni. Maent hefyd wedi curo Penmaenmawr Phoenix o 2-1 yng Nghwpan y Gynghrair gydag Andy Thomas yn sgorio'r ddwy gôl.

Ni chafodd y tîm Denbigh Development unrhyw gemau cynghrair yn ystod y mis diwethaf chwaith, ond maent wedi cyrraedd 8 olaf Cwpan y Gynghrair gyda buddugoliaeth o 3-1 yn erbyn Llanfairfechan gyda Rob Lawson, Liam Jones ac Adam Jones yn sgorio.

Wrth i'r clwb barhau i ddatblygu, mae'r galw am wirfoddolwyr i gynorthwyo ar ddiwrnodau gêm yn codi. Mae'r clwb hefyd yn chwilio am Gydlynydd Diwrnodau Gemau, stiwardiaid a chynorthwywyr cegin. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788627819 neu Shon Powell ar 07768383266.



Warren Duckett yn dathlu ei gôl yn erbyn Caernarfon.




Kristian Pierce yn cael ei ffowlio gan Rhys Roberts, Caernarfon a gafodd ei anfon o'r cae o ganlyniad i'r dacl yma.





## Pwy 'di pwy yng Nghlwb Pêl-droed Dinbych
## Hyfforddwr y Tîm Cyntaf – Dewi Llion Jones

**Llun dudalen gefn**

Yn 26 mlwydd oed, mae Dewi Llion wrth ei fodd yn cyfuno ei waith llawn amser o odro ar fferm ym Mhentrefoelas, gyda'i hyfforddiant pêl-droed. Magwyd ef yn Ninbych ac mae'n byw yma bellach gyda'i ddarpar wraig, Glesni, a'u mab, Caio sy'n ddwy oed. Ym mis Hydref 2016, fe ymunodd gyda CPD Dinbych fel rhan o'r tîm hyfforddi ac ymarfer. Cyn hyn, roedd yn Gyfarwyddwr ar Academi CPD y Bala am bedair blynedd a hanner.

Mae Dewi wedi chwarae pêl-droed i glybiau lleol yn y gorffennol gan gynnwys Rhuthun o pan oedd yn ddeuddeg oed fel amddiffynnwr. Cafodd dreialon gyda Wrecsam pan oedd yn ifanc, yna cafodd ei berswadio i chwarae i Ddinbych pan oedd yn 19 oed, gyda Dinbych bryd hynny yng Nghynghrair Cymru dan reolaeth John James. Chwaraeodd hefyd i Landyrnog Utd ond fe amharodd anafiadau arno ac felly penderfynodd ymgymryd ag hyfforddi.

Ar ôl gadael Ysgol Uwchradd Glan Clwyd, treuliodd 3 blynedd yn astudio gradd mewn Gwyddoniaeth Chwaraeon a Phêl-droed ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl. Pasiodd hefyd ei Dystysgrifau Hyfforddi - sef Trwydded C UEFA, a Thrwydded B UEFA yn ystod ei amser gyda Bala. Yn ystod ei amser yn y brifysgol, fe weithiodd i Pro Football Support, sef cwmni sy'n arbenigo mewn rhaglenni Gwyddoniaeth Pêl-droed ar gyfer Academïau. Cyfunodd hyn gyda rôl hyfforddi gyda Tranmere Rovers am ddeunaw mis yn ogystal â helpu i hyfforddi'r Tîm Cyntaf.

Yn fuan iawn, adnabuwyd ef fel dyn ifanc â photensial a chafodd ei ddewis fel rheolwr Academi CPD y Bala. Enillodd ei Drwydded Ieuenctid A UEFA hefyd yma a nododd, "Dwi'n ddiolchgar iawn i Colin Caton a Steve Fisher o CPD y Bala. Mi wnes i ddysgu gymaint gan y ddau ohonyn nhw gyda Colin yn fy mentora i, yn fy helpu yn ystod fy amser yno ac mae wedi chwarae rhan allweddol yn y ffordd dwi'n hyfforddi heddiw."

Y llynedd, fe dreuliodd wythnos yng nghwmni Osian Roberts, is-reolwr Cymru, wrth iddo gael ei wahodd i helpu i hyfforddi tîm dan 17 Cymru. Mae hefyd wedi rheoli Tîm Gogledd Cymru dan 15 oed yng Nghwpan Cymru.

Gofynnwyd i Dewi pam benderfynodd o ymuno â Dinbych. "Mae'r isadeiledd yma ar hyn o bryd mewn man lle gall y clwb dyfu a datblygu i gyrraedd Uwch Gynghrair Cymru. Mae yna dal ddipyn o waith i'w wneud ar y cae, ac oddi ar y cae, ond rydym ni'n mynd yn y cyfeiriad cywir ac mae hynny'n galonogol iawn. Dwi'n gweld y Clwb fel un uchelgeisiol, a dwi'n hoffi hynny."

Y tymor hwn, dewiswyd Dewi i fynychu cwrs Trwydded A UEFA gyda 22 ymgeisydd arall. Esboniodd Dewi ei fod hanner ffordd drwy'r cwrs dwys erbyn hyn a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r cwrs wedi ei leoli yng Nghasnewydd ym Mhencadlys yr FAW. Blwyddyn yw hyd y cwrs gyda llawer o theori, gwaith cwrs a sesiynau ymarferol. Wedi i'r flwyddyn o hyfforddi ddod i ben, bydd yn cael ei asesu gan obeithio y bydd yn cymhwyso i gael ei Drwydded A UEFA. Mae rhai o'r ymgeiswyr eraill ar y cwrs yn cynnwys Peter Crouch, Ryan Shawcross o Stoke City, Mark Hudson sef is-reolwr Huddersfield a Dean Keates, rheolwr CPD Wrecsam.

Mae Dewi wedi gweithio'n agos gyda rheolwr Dinbych, Eddie Maurice-Jones a'r hyfforddwr Danny Reece yn ystod y tymor hwn, wrth i'r tîm ddod yn ymgeiswyr cryf ar gyfer teitl Cynghrair Huws Gray Cymru. Mewn gêm ddiweddar oddi cartref yn erbyn y Rhyl, fe reolodd Dewi'r tîm am y tro cyntaf gan nad oedd Eddie yn gallu bod yn bresennol. Yn dilyn cynllunio manwl Dewi, daeth Dinbych oddi yno gyda buddugoliaeth o 5-3 gyda Dinbych yna'n codi i'r 3ydd safle yn y gynghrair.

Dal ati, Dewi!

# CLWB RYGBI DINBYCH

Daeth mwy o fuddugoliaethau cyfforddus i'r Tîm Cyntaf dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Y cyntaf i ddioddef oedd Y Trallwng o 79-0 gydag Owain Davies yn croesi am bum cais ar Gaeau Les Phillips. Llangollen oedd dan y lach wedyn, yn colli gartref o 81-7, gyda'r asgellwr Kieran Bonar yn croesi am hatric a'r canolwr Owain Davies yn sgorio 21 pwynt, cyn i'r ymwelwyr o'r Rhyl gael eu trechu o 56-9, gyda'r tîm cartref yn sgorio deg cais. Wythnos yn ddiweddarach sgoriodd yr asgellwr Andrew Wilson ddau gais ar ei ymddangosiad cyntaf i'r Tîm mewn buddugoliaeth o 45-24 yn erbyn yr un ymwelwyr. Roedd hyn yn golygu fod Dinbych yn mynd drwodd i Rownd Gynderfynol Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru, y gystadleuaeth a enillwyd mewn ffordd mor ddramatig ar Barc Eirias yn erbyn Dolgellau y llynedd.

Croesodd yr Ail Dîm y Fenai a dod yn ôl i'r Tir Mawr wedi curo Tîm Cyntaf Benllech o 27-5, ond colli fu'r hanes gartref yn erbyn Tîm Cyntaf Y Fflint o 29-3. Nid yn annisgwyl efallai oedd colli o 52-0 yn erbyn tîm cryf Nant Conwy, gyda'r ymwelwyr yn sgorio deg cais.

Mewn gornest leol yn erbyn yr "hen elyn" gêm gyfartal gafwyd gan yr Ieuenctid yn Rhuthun, gyda sgôr terfynol o 10-10. Cafwyd gêm hynod gystadleuol yng Nhystadleuaeth Plât Ieuenctid Gogledd Cymru yng Nghaernarfon, gyda'r Cofis yn cael eu trechu o 43-37.

Llwyddodd y Tîm Dan 11 i guro eu cymdogion o Rhuthun o 47-17, gyda Ryan Bradbury yn sgorio dau gais a Llion Jones yn cael ei enwi'n Chwaraewr Gorau'r Gêm i'r tîm cartref.

*John Davies*



**CRD GML** Geraint Madoc-Jones yn benderfynol o dorri drwodd y erbyn Y Rhyl yn y Gwpan. *(Llun gan Keith Hulse)*

**Tudalen y Plant**

1. YR ATEB – 28
2. YR ATEB – dan glo

Swper Clwb Bowlio, Capel y Fron ym Mhrestatyn







Enillwyr y dyblau Clwyd a Tegwen



Clwyd a June yn brysur yn mesur



**Dewi Llion Jones**

# Cyfarfod Blynyddol Y Bigwn

**Nos Fercher, Mawrth 7fed am 7.30 yn festri Capel Mawr**

***GOLYGYDD** Mawrth - Caradig Gwynn, 58 Stryd y Dyffryn, Dinbych Ll16 3 BW 815701 dgwynn@toucansurf.com*

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain